



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Delivery Unit
Uned Gyflawni



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Cymru Iachach:

ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhoi Gartref yn Gyntaf ar Waith

Cymuned Ymarfer o'r Ysbyty i'r Cartref:
enghreifftiau allweddol o ddysgu ac ymarfer


Mai 2021



Cyflwyniad	3
Cefndir	4
Rhyddhau i Adfer ac Asesu: Model Cymru	7
D2RA ar waith ledled Cymru: Astudiaethau Achos	12
Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 1: Modelau presennol ledled y DU	20
Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 2: Datblygu Diwylliant Cadarnhaol er mwyn Rheoli Risg	23
Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 3: Adeiladu sylfaen dystiolaeth er mwyn dangos llwyddiant	25
Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 4: Dull myfyriol o gynllunio yn y dyfodol	28
Effaith COVID-19 ar Wasanaethau O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru	34
Cymuned Ymarfer – Crynodeb dysgu allweddol a'r camau nesaf	36
Atodiadau	39–42

Mae 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'¹ (Cymru Iachach), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol o 'iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu drwy un system gyfan ddi-dor'. Roedd y weledigaeth hon yn amlinellu newid dros amser o'r ddibyniaeth ar wasanaethau ysbyty traddodiadol i ddull di-dor o ofal integredig yn cynnwys gwasanaethau iechyd, awdurdodau a'r trydydd sector; wedi'u hwyluso drwy gydweithio ac ymgynghori sy'n grymuso cymunedau lleol.

Ffigur 1: Trefnu newid trawsnewidiol a modelau gofal newydd



Er mwyn cyflawni camau gweithredu Cymru Iachach, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer o wasanaethau drwy'r Gronfa Gofal Integredig (GGI)² a'r Gronfa Trawsnewid³ er mwyn archwilio modelau gofal newydd. Amcan tymor hwy'r cronfeydd hyn yw i ddarparu'r iechyd a gofal cymdeithasol weithredu a threfnu gwasanaethau o lefel leol a rhanbarthol i lefel genedlaethol, gan eu cynnal o'u hadnoddau eu hunain yn y pen draw.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae timau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector wedi bod yn datblygu partneriaethau newydd ac yn gweithredu modelau newydd o wasanaethau Gartref yn Gyntaf ac 'O'r Ysbyty i'r Cartref'⁴ yng Nghymru.

"O'r ysbyty i'r cartref" – mae'n cyfeirio at y gofal a'r cymorth a gynnigir i gleifion i adael yr ysbyty a chael asesiad parhaus ac adferiad gyda'r nod o gyfyngu ar amser diangen mewn ysbytai.

Ers 2018 mae Uned Gyflawni GIG Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu gweithgarwch Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref, a thynnwyd sylw pellach at bwysigrwydd hynny fel rhan o Werthusiad Canol Cyfnod Cenedlaethol⁵ y Gronfa Trawsnewid

Mae'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ffactor allweddol o ran adsefydlu ac mae wedi dangos y bydd y cymorth y mae unigolyn yn ei gael cyn ac ar ôl ei ryddhau'n effeithio ar y tebygolrwydd y bydd angen gofal arno yn y dyfodol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth werthuso a'r camau gweithredu a gyflwynir yn Cymru Iachach, cyflwynwyd Cymuned Ymarfer yng Nghymru yn haf 2020 a'i rhedeg ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r DU. Diben y Gymuned Ymarfer yw cefnogi dysgu a rennir a threfnu modelau gofal ac ymarfer da ar draws rhanbarthau ar gyfer y rhai sy'n darparu gwasanaethau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref.

Cymuned Ymarfer grŵp o bobl sy'n rhannu pryder neu angerdd am rywbeth maen nhw'n ei wneud ac yn dysgu sut i'w wneud yn well wrth iddynt ryngweithio'n rheolaidd.

Archwilir canfyddiadau a'r camau nesaf ar gyfer y Gymuned Ymarfer yn fanylach yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys astudiaethau achos o brosiectau 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu'⁶ (D2RA) yng Nghymru.

1. Cymru Iachach <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>
2. Canllawiau Refeniw, Cyfalaf a Dementia y Gronfa Gofal Integredig (pdf) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/y-gronfa-gofal-integredig-canllawiau-refeniw-cyfalaf-a-dementia.pdf>
3. Cronfa Trawsnewid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: prosiectau <https://llyw.cymru/cronfa-trawsnewid-iechyd-gwasanaethau-cymdeithasol-prosiectau>
4. Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (pdf) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-o-ysbyty-COVID-19.pdf>
5. Gwerthusiad Canol Cyfnod Cronfa Drawsnewid Cymru Iachach (pdf) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/gwerthusiad-canol-cyfnod-cronfa-drawsnewid-cymru-iachach.pdf>
6. Right Sizing Community Services to Support Discharge from Hospital (ADSS Cymru) <https://www.adss.cymru/image/blog/COVID-19%20Resources/28-05-20/Right-sizing%20Community%20Services%20for%20Discharge.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi bod yn datblygu ffyrdd o wella'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau ers cyhoeddi 'Passing the Baton'⁷ yn 2008, gyda'r model Discharge to Assess (D2A) a gefnogir gan y GIG yn Lloegr ers 2015⁸. Mae gweithredu Cymru iachach yn adeiladu ar y gwaith hwn i drawsnewid ymhellach y gofal sydd eisoes ar waith i wella canlyniadau yng Nghymru. Fel rhan o hyn, mae'r Uned Gyflawni wedi bod wrthi'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu D2RA, gan fireinio model sydd wedi'i addasu i anghenion yr unigolyn.

Un o'r elfennau craidd a oedd yn sail i ddatblygu model O'r Ysbyty i'r Cartref Cymru oedd yr ymchwil academiaidd ac roedd sawl adolygiad yn canolbwyntio ar archwilio gwasanaethau ysbytai Cymru ac archwilio cyfleoedd i wella'r broses o ryddhau cleifion.

Yn 2018 canfu Arolygiaeth Iechyd Cymru fod y polisiau cywir ar waith gan fyrrdau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn gyffredinol o ran rhyddhau cleifion, ond roedd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r prosesau rhyddhau ymhlith staff wardiau.

Dangosodd y canfyddiadau hyn rai sylfeini cadarnhaol ond hefyd angen clir am ailwampio, ail-addysgu ac ail-werthuso'r prosesau rhyddhau⁹.

Cadarnhawyd hyn gan ganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn yr adroddiad 'Beth yw'r oedi?' yn 2019 a ganfu mai dim ond traean o gyrff GIG Cymru a gofnododd y dyddiad y datganwyd bod claf yn feddygol addas i'w ryddhau. Nodwyd rhai meysydd i roi sylw difrifol iddynt megis¹⁰:

- Aseswyd bod angen cymorth ar lai o bobl ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty
- Aseswyd gormod o bobl hŷn mewn gwely ysbyty aciwt ar gyfer pecynnau gofal tymor hwy neu leoliad newydd mewn cartref gofal
- Gosodwyd mwy o bobl mewn cyfleuster â gwelyau nag y gellid ei ddisgwyl.

Yna cymhwyswyd canfyddiadau'r adolygiadau hyn a chanfyddiadau adroddiad yr Uned Gyflawni yn 2018 'Every Day Counts: Why not home?' yng nghydestun y gwaith presennol ar O'r Ysbyty i'r Cartref; yn fwyaf penodol, helpodd gwaith a wnaed gan yr Athro John Bolton, a elwir 'Y Model' a model D2A Lloegr, i ffurfio'r sylfeini ar gyfer datblygu D2RA¹¹.

Ffigur 2: Modelau rhyddhau cyflym yng Nghymru a Lloegr


Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)
Model Cymru, a gyflwynwyd yn 2018. Yn seiliedig ar fodel Lloegr gydag egwyddorion gwella ychwanegol.



Rhyddhau i Asesu (D2A)
Model rhyddhau Lloegr a gyflwynwyd yn 2015.

7. Passing the Baton: A Practical Guide to Effective Discharge Planning
<https://www.adss.cymru/cy/blog/post/passing-the-baton-a-practical-guide-to-effective-discharge-planning>
8. Quick Guide: Discharge to Assess (pdf)
<https://www.nhs.uk/NHSEngland/keogh-review/Documents/quick-guides/Quick-Guide-discharge-to-access.pdf>
9. Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty i Bractis Cyffredinol: Adroddiad Thematig 2017-18 (pdf)
<https://agc.org.uk/sites/default/files/2019-06/180808dischargecy.pdf>
10. Beth yw'r oedi? Rhyddhau cleifion yng Nghymru (pdf)
https://www.audit.wales/sites/default/files/discharge-planning-leaflet-2019-welsh_5.pdf
11. Reducing Delays in Hospital Transfers of Care for Older People (pdf)
https://ipc.brookes.ac.uk/files/publications/Some_key_messages_around_hospital_transfers_of_care.pdf

Ffigur 3: ‘Y Model’ gan yr Athro John Bolton



*Mae'r rhifau yn y diagram yn dangos arferion da ar sail derbyn 1000 o bobl.

Yn 'Y Model', mae'r rhifau yn y diagram yn dangos sut beth fyddai ymarfer da a mapio llwybrau dros dro. Mae'r Athro John Bolton wedi tynnu sylw at y ffaith mai'r "the key message conveyed by the illustration, is that each component of the model needs to understand the flow of patients, the outcomes achieved and the overall performance of the health and social care system."¹²

Ers hynny, mae rhai awdurdodau lleol yn y DU wedi mabwysiadu'r model hwn i greu darlun o'u perfformiad presennol mewn gwasanaethau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref a nodi lle y gellir gwneud gwelliannau; gyda'r nod cyffredinol o leihau oedi wrth drosglwyddo gofal i bobl hŷn. Mae'n werth nodi bod gan y modelau O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru lwybrau adfer ac adsefydlu sy'n gofalu am bob math o gleifion, nid dim ond canolbwyntio ar ofal cleifion oedrannus.

Roedd y gwaith O'r Ysbyty i'r Cartref sylfaenol hwn o 'Y Model' a'r D2A yn Lloegr yn sail i gynhadledd gyntaf yr Uned Gyflawni 'Gartref yn Gyntaf: Home First' ym mis Medi 2018 lle daethant ynghyd â'r elfennau llwyddiannus o bob un gyda'r gwersi'n cael eu hystyried a'u derbyn. Felly, mae'r egwyddorion sefydlu o ganolbwyntio ar ganlyniadau cleifion yn hollbwysig yn D2RA, tra bod ychwanegu'r egwyddorion Adfer yn adlewyrchu rhywfaint o esblygiad yn Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref yn D2RA.

Mae egwyddorion D2RA yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl, gan wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau prin ar yr un pryd.

Amcan y model yw cefnogi pobl i wella gartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus, er mwyn:

- Canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt;
- Osgoi datgyflyru a cholli hyder yn yr ysbyty;
- Lleihau cysylltiad â risg haint cleifion mewnol gymaint â phosibl;
- Sicrhau'r adferiad a'r annibyniaeth gorau posibl;
- Darparu trosglwyddiad di-dor i gymorth tymor hwy yn y gymuned, os oes angen;
- Lleihau gor-ragnodi gwasanaethau statudol 'er mwyn bod yn ddiogel'.

Cyflwynwyd D2A Lloegr a 'Y Model' yn ystod gweithdai'r Gymuned Ymarfer hefyd, gan hwyluso trafodaeth ar sut y gellid cymhwyso hyn i D2RA yng Nghymru ac yn benodol sut olwg fyddai ar greu llwybrau pwrpasol sy'n canolbwyntio ar adferiad.

12. Reducing Delays in Hospital Transfers of Care for Older People

https://ipc.brookes.ac.uk/files/publications/Some_key_messages_around_hospital_transfers_of_care.pdf

Rhyddhau i Adfer ac Asesu: Model Cymru

Cynlluniwyd Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) Cymru drwy ymgynghori gan yr Uned Gyflawni â rhanddeiliaid a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan deilwra rhywfaint o waith yr Athro John Bolton a model D2A Lloegr i weddu i anghenion tirwedd iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Cynlluniwyd D2RA yn arbennig i fod yn hyblyg, ac o'r herwydd fe'i gweithredwyd gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru ac mae'n parhau i gael ei addasu i ymateb i COVID-19.

Ffigur 4: Llwybrau D2RA

Llwybr 0	Llwybr 1	Llwybr 2	Llwybr 4	Llwybr 3
 Rhyddhau neu osgoi derbyn i'r ysbyty drwy gymorth tymor byr gan y trydydd sector	 Ydy'r person hwn yn ffit i gael ei dderbyn?	 Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw?	 Gartref yn gyntaf pan mai cartref gofal yw'ch cartref	 Cymorth i adfer mewn cyfleuster gofal canolraddol â gwelyau
Gwasanaethau ataliol a ddarperir mewn cydweithrediad â sefydliadau'r trydydd sector. Y nod yw osgoi unrhyw atgyfeiriadau a derbyniadau pellach.	Asesiad tîm amlddisgyblaeth mewn unedau 'drws ffrynt' ysbytai i osgoi derbyn yn llawn. Trefnu triniaeth a chymorth i wella gartref, os yw hynny'n ddiogel yn glinigol.	Gallu digwydd cyn gynted ag y bydd y driniaeth, y mae'n rhaid ei rhoi mewn amgylchedd ysbyty aciwt, wedi'i chwblhau. Yn cefnogi pobl i wella gartref cyn cael eu hasesu am unrhyw angen parhaus.	Yn debyg i Llwybr 2 ond yn cydnabod ystyriaethau penodol sydd angen sylw yn yr amgylchedd cartref gofal presennol. Dylai unigolion gael cyfnod o adferiad, ac yna asesiad yn eu hamgylchedd arferol.	Dim ond pan fydd anghenion yr unigolyn yn golygu bod gwella ac asesu gartref yn amhosibl y dylid ystyried y Llwybr hwn. Adolygu a throsglwyddo i Llwybr 2 pan fydd modd, a hynny cyn gynted â phosibl.

Erbyn hyn mae model D2RA yn cael ei sefydlu fel y model cenedlaethol ar gyfer Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref ac er mwyn adlewyrchu uchelgais Cymru lachach i gael gwasanaethau cenedlaethol hyblyg ar lefel leol, erys rhai gwahaniaethau ar draws rhanbarthau. Datblygwyd y pum llwybr i gynnal pwyslais ar yr egwyddor 'Gartref yn Gyntaf' ac ymgorffori adferiad. Fe'u cynlluniwyd fel ffocws ar gyfer pob gwasanaeth O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru, gan ganiatáu i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r llwybrau a chydlynu'r lefel a'r mathau cywir o wasanaethau er mwyn mynd sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl yn eu hardal yn effeithiol.

Mae'r llwybrau hyn yn deillio o weithdai rhanbarthol a chenedlaethol a gynhaliwyd gan yr Uned Gyflawni, ac mae Canllaw 'Pob Dydd yn Cyfri' ar gael ar gyfer pedwar o'r pum Llwybr D2RA erbyn hyn.¹³ Mae'r canllawiau hyn yn manylu ar egwyddorion pob llwybr a 'Sut Beth Yw Da'.¹⁴

Gellir gweld llwyddiant y llwybrau hyn yn yr astudiaethau achos (gweler tudalen 12) lle mae'r defnydd o llwybrau D2RA yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl.

Erbyn hyn mae'r gwasanaethau'n cael eu hannog i weithredu'r strwythur llwybrau fel rhan o'u gwaith o gynllunio dilyniant a chynaliadwyedd.

13. Mae dolenni i'r canllawiau 'Pob Dydd yn Cyfri' hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiadau.

14. Mae Llwybr 0 'Pob Dydd yn cyfri' wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Roedd y canlyniadau a'r mesurau perfformiad ar gyfer D2RA yn elfen allweddol yn nhrefnadaethau'r Gymuned Ymarfer ac arweiniodd at gyfres o fesurau a dangosyddion perfformiad drafft.

Bydd y dulliau gwerthuso hyn yn hwyluso'r gwaith o wella'r llwybrau a'r dulliau O'r Ysbyty i'r Cartref yn barhaus, gan ganolbwyntio ar *faint, pa mor dda ac a oedd unrhyw un yn well ei fyd (effaith)*.

Fel gyda'r llwybrau, ac yn unol â nodau Cymru lachach, mae'r mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i gael eu haddasu hefyd fel y gall pob rhanbarth neu wasanaeth eu defnyddio'n briodol.

D2RA yn ystod COVID-19

Cafodd y gwaith o gyflwyno model D2RA ei gyflymu i fynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan COVID-19 ac mae'r model wedi dod yn arf hanfodol yn ymateb Llywodraeth Cymru.

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddwyd £10 miliwn o gyllid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi cleifion sydd wedi gwella o COVID-19 i ddychwelyd adref. Mae'r gronfa'n darparu cymorth ar gyfer:

- ehangu gwasanaethau rhyddhau cleifion o'r ysbyty
- capasiti ychwanegol yn y gymuned i ofalu am bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty
- helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl ar ôl COVID-19, gan gynnwys prynu offer ar gyfer eu cartref
- gwell gwasanaethau yn y gymuned i leihau'r pwysau ar ofal sylfaenol ac eilaidd.

At hynny, darparwyd cyllid ychwanegol o £10 miliwn ym mis Mai 2020 i gyflymu'r broses o gyflwyno D2RA. Helpodd y cyflwyno carlam hwn i ddiogelu gofal brys rhag y gofynion rhyddhau cleifion o'r ysbyty mwy cymhleth a achoswyd gan COVID-19.¹⁵

Yn ogystal, ychwanegwyd Llwybr 0 at y model D2RA fel ymateb i COVID-19 i helpu i hwyluso a gwella gwasanaethau rhyddhau, gan ddefnyddio gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn ogystal â chreu platfform ar gyfer cydweithio yn y gymuned.


Mae hyn wedi'i ehangu ers hynny ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £6 miliwn pellach o gyllid ym mis Mawrth 2021 fel y gellir datblygu llwybrau 0, 1, 2 a 4 D2RA yn gynaliadwy a hwyluso mwy o ffocws gofal seiliedig ar le wrth ddarparu gofal a chymorth ar ôl COVID-19.

15. Gofynion Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty i'r Cartref COVID-19

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-o-ysbyty-COVID-19.pdf>

Trafodir yr effaith a'r camau dilynol a orfodir mewn ymateb i COVID-19 yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ffigur 5: Llinell amser Gartref yn Gyntaf ac Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru



Cymuned Ymarfer: O'r Ysbyty i'r Cartref

Mae Cymunedau Ymarfer yn ffordd o ddod â grwpiau o bobl sy'n rhannu angerdd, diddordeb, pryder neu nod cyffredin at ei gilydd. Maent yn annog trafodaeth gynhyrchiol ynghylch pwyntiau o ddiddordeb cyffredin, yn hwyluso'r gwaith o rannu arferion gorau ac yn cefnogi dysgu cydweithredol i oresgyn heriau cyffredin.

Ffigur 6: Amcanion Cymuned Ymarfer




Hyrwyddo dysgu
cyffredin



Datblygu
rhwydweithiau



Rhannu arferion
gorau



Goresgyn
rhwystrau

Yn unol â'r camau gweithredu a nodir yn Cymru lachach, gweithiodd Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r Uned Gyflawni i ddatblygu Cymuned Ymarfer sy'n canolbwyntio ar wasanaethau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru.

Drwy gydol 2020 ac ymlaen i 2021, gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector) i fynychu cyfres o sesiynau grŵp, gyda'r bwriad o hyrwyddo dysgu a rennir ar draws rhanbarthau a chefnogi dull cydgysylltiedig o wella canlyniadau i bobl Cymru.

Cynhaliwyd pedwar gweithdy, gyda thrafodaethau a chynnwys wedi'u cyfeirio gan anghenion cyfranogwyr, a'u teilwra iddynt.


O ganlyniad, canolbwyntiodd y gweithdai ar: fodelau presennol o Gymru a'r DU; datblygu diwylliant cadarnhaol er mwyn rheoli risg; adeiladu sylfaen dystiolaeth er mwyn dangos llwyddiant; dull myfyriol o gynllunio yn y dyfodol; a'r camau nesaf ar gyfer O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru yn y drefn honno.

Manylir ymhellach ar grynodedbau o'r themâu a'r canlyniadau allweddol o bob sesiwn, yn ogystal â strategaethau astudiaethau achos ar gyfer rheoli risg a dangosyddion a chanlyniadau perfformiad arfaethedig, yn adrannau nesaf yr adroddiad.

Dysgu Allweddol – Sesiwn 1: Modelau presennol ledled Cymru

Yn ystod y gweithdy cyntaf, rhannodd y cyfranogwyr enghreifftiau o fodelau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref presennol sydd ar waith ledled eu gwahanol ranbarthau. Anogwyd trafodaeth ynghylch darparu gwasanaethau, cyflawniadau hyd yma, heriau posibl a'r camau nesaf. Datblygwyd yr enghreifftiau hyn yn astudiaethau achos (fel y cânt eu mapio yn Ffigur 7 isod), i ddangos y darlun cenedlaethol o wasanaethau O'r Ysbyty i'r Cartref ledled Cymru.

Ffigur 7 Modelau Gartref yn Gyntaf ac Ysbyty i'r Cartref ledled Cymru



D2RA ar waith ledled Cymru: Astudiaethau Achos

Ffigur 8: Mapio astudiaethau achos D2RA i lwybrau

Cyflwyno O'r Ysbyty i'r Cartref i Gymru – Amserlen D2RA

	Llwybr 0	Llwybr 1	Llwybr 2	Llwybr 4	Llwybr 3
	 Rhyddhau neu osgoi derbyn i'r ysbyty drwy gymorth tymor byr gan y trydydd sector	 Ydy'r person hwn yn ffit i gael ei dderbyn?	 Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw?	 Gartref yn gyntaf pan mai cartref gofal yw'ch cartref	 Cymorth i adfer mewn cyfleuster gofal canolraddol â gwelyau
	Gwasanaethau ataliol a ddarperir mewn cydweithrediad â sefydliadau'r trydydd sector. Y nod yw osgoi unrhyw atgyfeiriadau a derbyniadau pellach.	Asesiad tîm amlddisgyblaeth mewn unedau 'drws ffrynt' ysbytai i osgoi derbyn yn llawn. Trefnu triniaeth a chymorth i adfer gartref, os yw hynny'n ddiogel yn glinigol.	Gallu digwydd cyn gynted ag y bydd y driniaeth, y mae'n rhaid ei rhoi mewn amgylchedd ysbyty aciwt, wedi'i chwblhau. Yn cefnogi pobl i wella gartref cyn cael eu hasesu am unrhyw angen parhaus.	Yn debyg i Llwybr 2 ond yn cydnabod ystyriaethau penodol sydd angen sylw yn yr amgylchedd cartref gofal presennol. Dylai unigolion gael cyfnod o adfer, ac yna asesiad yn eu hamgylchedd arferol.	Dim ond pan fydd anghenion yr unigolyn yn golygu bod adfer ac asesu gartref yn amhosibl y dylid ystyried y Llwybr hwn. Adolygu a throsglwyddo i Llwybr 2 pan fydd modd, a hynny cyn gynted â phosibl.
	Llwybr 0 (modelau enghreifftiol)	Llwybr 1 (modelau enghreifftiol)	Llwybr 2 (modelau enghreifftiol)	Llwybr 4 (modelau enghreifftiol)	Llwybr 3 (modelau enghreifftiol)
Get Me Home (Caerdydd a'r Fro)		X	X	X	
Cadw'n Iach Gartref 2 (Cwm Taf)	X	X	X		
Gartref yn Gyntaf (Gwent)	X	X	X		X
Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol (Y Gogledd)	X	X			
D2RA (Powys)	X	X	X	X	X
Model Optimaidd (Gorllewin Morgannwg)	X	X	X		
PIVOT (Y Gorllewin)	X	X	X		

Get Me Home & Get Me Home Plus



Gweinyddu

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Caerdydd a'r Fro**

Cronfa Trawsnewid

Yn cwrpasu ardal Caerdydd.

Disgrifiad

Get Me Home Plus: Model gofal sy'n canolbwyntio ar asesu o amgylchedd cartref i leihau datgyflyru a'r risg o heintiau a gafwyd mewn ysbyty.

Gwasanaethau Ataliol Get Me Home: Un pwynt mynediad yn yr ysbyty sy'n rhoi cymorth i ddarparu ymyriadau ataliol a chefnogi byw'n annibynnol.

Crynodeb

Mae Get Me Home Plus wedi sefydlu llwybr carlam lle mae tîm amlddisgyblaethol sy'n gweithio gyda charfan o gleifion sydd â mwy o rwystrau ac sydd angen pecyn mwy dwys o gymorth ail- gofal cartref a galluogi. Mae'r gwasanaeth hwn yn ymestyn i gynnwys gwasanaeth nos lle bo angen a gall gynnig gofal cofleidiol a gwell ffocws ar atebion Therapyddion Galwedigaethol.

Mae tîm Get Me Home Plus yn cysylltu â'r Gwasanaethau Ataliol gan sicrhau asesiad cyfannol o anghenion. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar fudd-daliadau, gwasanaethau cymunedol eraill a chyfeirio at gymorth trydydd sector arall gyda'r nod o atal derbyniadau pellach a rhoi cymorth i unigolion er mwyn cynnal eu llesiant yn eu cartref eu hunain.

Mae gan Wasanaethau Ataliol Get Me Home, a elwir y 'fyddin binc' yn lleol, un pwynt mynediad yn yr ysbyty ar gyfer yr holl wasanaethau yn y gymuned. Mae'r tîm yn defnyddio sgysiau 'Beth sy'n Bwysig' i ddarparu cymorth cyfannol wedi'i deilwra sy'n diwallu anghenion llesiant yr unigolyn, gan ddarparu ymyriadau ataliol a chefnogi byw'n annibynnol.

Canlyniadau

- Mae Get Me Home Prevention wedi bod yn hanfodol i'r ymateb i COVID-19 a chafodd ei gyflymu gan alluogi'r tîm amlddisgyblaethol i ddatrys problemau'n uniongyrchol gan leihau biwrocratiaeth, ac mae wedi cynorthwyo 541 o bobl wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn prin dri mis.
- Mae'r berthynas well a'r cysylltiadau ehangach wedi annog gwell cymorth i gleifion a gwell llif cleifion. Mae hyn wedi bod yn allweddol wrth arddangos gwerth y prosiect i gyd-gydweithwyr iechyd, gyda 100% o staff yn dweud eu bod yn teimlo bod y gwasanaethau'n hwyluso rhyddhau cyflymach.
- Mae'r model Get Me Home Plus wedi'i integreiddio i'r gwasanaeth cymunedol, gan gysylltu'n benodol â'r Tîm Ymateb Cymunedol. Fodd bynnag, oherwydd COVID-19 bu'n anodd parhau i ymgysylltu â chleifion gan na fu mynediad cyson at TG yn ystod y newid i alluogi cyfathrebu rhithwir.

Camau Nesaf

- Gwella anawsterau TG a symud tuag at ddarparu rhithwir, gan gynnwys gwella cysylltiad WiFi ar draws Bro Morgannwg.
- Datblygu hyfforddiant staff i ymateb i anghenion newidiol y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu, gan fod y galwadau ar staff prosiect yn fwy arbenigol erbyn hyn, bod angen lefel uwch o wybodaeth glinigol.

Rhagor o Wybodaeth

Cysylltu â (Get Me Home):

C.Palmer@cardiff.gov.uk


Cysylltu â (Get Me Home Plus):

Judith.A.Hill@wales.nhs.uk

Fideo:

https://www.youtube.com/watch?v=eJM_eVU1FIY

Cadw'n Iach Gartref 2 (SW@H 2) – Un Pwynt Mynediad



Gweinyddu

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Cwm Taf Morgannwg**

Cronfa Trawsnewid

**Yn cwmpasu ardaloedd Rhondda Cynon Taf
(RhCT) a Merthyr Tudful (MT).**

Disgrifiad

Mae Cadw'n Iach Gartref yn fenter dau gam sydd wedi'i chynllunio i helpu pobl i aros gartref. Sefydlodd Cam 1 dimau amlddisgyblaethol yn y ddau ysbyty Cyffredinol Dosbarth mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys er mwyn osgoi derbyn pobl i'r ysbyty a byrhau hyd arhosiad. Mae hyn wedi'i ymestyn yng ngham 2 lle'r mai'r nod yw cynnig dewis arall yn lle cludo neu dderbyn pobl i'r ysbyty drwy sefydlu gwasanaethau cymunedol yn gyflym.

Crynodeb

Sefydlodd Cam 1 SW@H dimau amlddisgyblaethol yn ysbytai cyffredinol dosbarth y rhanbarth, gan gydweithio i greu pecynnau gofal pwrpasol fel y gallai pobl adael yr ysbyty'n gynt a derbyn gofal gartref yn lle hynny.

Gan adeiladu ar hyn, ehangodd cam 2 SW@H y Pwyntiau Mynediad Unigol yn y naill Awdurdod Lleol a'r llall, gan ymestyn eu horiau agor i 7 diwrnod yr wythnos a hyd at 8pm – gan dderbyn atgyfeiriadau dros y ffôn – gan weithwyr proffesiynol cymunedol fel Nyrsys Ardal, Meddygon Teulu a Gwasanaethau Ambiwylans Cymru er mwyn iddynt gael mynediad at wasanaethau cymunedol ymateb cyflym i gynorthwyo pobl i aros yn ddiogel gartref ac osgoi mynd i'r ysbyty.

Mae'r Un Pwynt Mynediad yn cytuno ar ymateb priodol gan y gwasanaeth cymunedol i'r dinesydd o fewn pedair awr yn seiliedig ar ei angen presennol, a bennir yn dilyn un sgwrs "beth sy'n bwysig" gydag asesydd dibynadwy, gan leihau nifer y camau a'r asesiadau sy'n ofynnol rhwng atgyfeirio ac ymateb.

Canlyniadau

- Cwblhawyd Cam 1 SW@H o sefydlu timau amlddisgyblaethol ar draws RhCT a MT yn 2017.
- Mae Cam 2 SW@H yn weithredol ar draws RhCT ac MT erbyn hyn, gydag oriau agor estynedig ar gyfer Pwyntiau Mynediad Unigol wedi'u sefydlu yn RhCT ym mis Ionawr 2020 a MT ym mis Gorffennaf 2020.
- Fel mesur o berfformiad ar gyfer cam 2, ym mis Chwefror 2021 cyrhaeddodd 96% o atgyfeiriadau'r targed pedair awr ar gyfer cytuno ar ymateb. Er i'r oriau estynedig eu hoedi yn RhCT yn ystod y ddau gyfnod clo cyntaf oherwydd pwysau yn sgil prinder staff, mae'r gwasanaethau hyn ar waith eto erbyn hyn.

Camau Nesaf

- Adolygu'r cynnydd a'r perfformiad i asesu'r camau nesaf a sicrhau ffynhonnell gynaliadwy o gyllid.
- Creu cynllun i ymateb i gynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ailalluogi yn dilyn COVID-19.

Rhagor o Wybodaeth


Cyswllt:

Sarah.J.Evans2@rctcbc.gov.uk

Erthygl:

www.cwmmtafmorgannwg.wales/hundreds-patients-avoid-hospital-stays-thanks-home-service/

Gartref yn Gyntaf (Home First)



Gweinyddu

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Cyllid Trawsnewid

Yn cwmpasu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Disgrifiad

Nod Gartref yn Gyntaf yw datblygu dull integredig rhwng y pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi a chefnogi rhyddhau amserol ac effeithiol. Gellir ei grynhoi fel system ddi-dor o gymorth i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty cyn gynted â phosibl ar gyfer unigolion gan ganolbwyntio ar wardiau arhosiad byr a'r rhai nad oes angen eu derbyn i'r ysbyty.

Crynodeb

Mae Gartref yn Gyntaf yn gweithredu gyda llwybr ac egwyddorion D2RA, gan ddarparu tîm amlddisgyblaethol sy'n cysylltu rhwng pum gwasanaeth awdurdod lleol a safleoedd ysbytai aciwt ac sy'n gweithredu i ategu'r gwasanaethau presennol.

Caiff cleifion sy'n addas ar gyfer Gartref yn Gyntaf eu nodi a chynigir cymorth i'w rhyddhau yn ôl adref cyn gynted â phosibl gyda pha gymorth bynnag sy'n berthnasol i'w hangen. I ddechrau, mae staff Gartref yn Gyntaf yn gweithredu proses brysbenno syml; cleifion sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymuned/cymdeithasol a'r rhai nad ydynt yn hysbys iddynt. Mae'r asesiad Gartref yn Gyntaf yn hwyluso rhyddhau cleifion cyn gynted â phosibl drwy gynnwys y claf, ei deulu a'i ofalwyr ac unrhyw gydweithwyr iechyd perthnasol.

Canlyniadau

- Mae Gartref yn Gyntaf wedi bod ar waith yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni ac yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ers diwedd 2018.
- Mae Gartref yn Gyntaf wedi dechrau olrhain 'Aseswyd Allan' (derbyniadau a gafodd eu hosgoi) fel mesur perfformiad a'r duedd hirdymor yw mai 60% yw cyfradd gyffredinol 'Aseswyd Allan'. Yn 2019 roedd yn 62%, mae hyn yn arwyddocaol a hwn yw'r perfformiad gorau erioed.

- Rhoddwyd pwyslais cryf ar gasglu data perfformiad ansoddol; ac mae tystiolaeth astudiaethau achos yn dangos y gall osgoi derbyn i'r ysbyty a hwylusir gan Gartref yn Gyntaf fod o fudd mawr i'r cleifion unigol, ac fel y dywed staff "Mae Gartref yn Gyntaf yn gweithio'n dda iawn wrth y drws ffrynt ochr yn ochr â ffisiotherapi a therapi galwedigaethol ac yn gwella hyder i ryddhau".
- Fodd bynnag, mae adborth arolygon yn dangos hefyd fod cysondeb ymatebion aelodau'r tîm i wasanaethau eraill (ac efallai hyfforddiant) yn elfen bwysig o weithredu gwasanaeth osgoi derbyniadau effeithiol ac mae mwy o hyfforddiant yn unol â datblygiad y gwasanaethau yn cael ei archwilio.

Camau Nesaf

Mae Gartref yn Gyntaf wedi amlinellu sawl cam nesaf, a gellir cyffredinololi rhai ohonynt ar gyfer D2RA:

- Cynnwys osgoi mynediad yn yr agenda lles cleifion ehangach (yn benodol wrth i Ysbyty y Faenor ddod yn weithredol).
- Ymgorffori 'aseswyd allan' mewn data perfformiad yn y dyfodol ac ail-lunio 'gofal sy'n canolbwyntio ar y claf mor agos i'w gartref â phosibl' fel nwydd allweddol yn yr un modd â gwelyau ysbyty.
- Parhau â'r cydweithio ag awdurdodau lleol, iechyd a'r trydydd sector fel rhan o drawsnewid ehangach tuag at osgoi derbyniadau.


Rhagor o Wybodaeth

Cyswllt:

Joanne.Ascott@newport.gov.uk

Fideo:

www.youtube.com/watch?v=1sC_Ir5NxnI



Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Gweinyddu

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cronfa Trawsnewid

Yn cwmpasu ardaloedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Disgrifiad

Nod y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yw cynyddu capasiti a sgiliau ym maes iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol er mwyn darparu gwasanaethau integredig di-dor ar sail ôl troed ardal. Drwy ddatblygu model sy'n seiliedig ar leoedd ar gyfer gofal a chymorth, mae'r rhaglen yn ceisio symud ffocws gofal oddi wrth ysbytai/salwch aciwt tuag at y gymuned/llesiant.

Gwella mynediad at wasanaethau ataliol, darparu ymyriadau therapiwtig a chymorth cymunedol; sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau; symleiddio'r broses o lywio'r daith drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol; darparu model ar gyfer gofal a alluogir yn ddigidol; a datblygu gweithlu cynaliadwy, yw congrffeni'r rhaglen.

Crynodeb

Mae'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn dwyn ynghyd gofal sylfaenol, iechyd cymunedol, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth drwy Dimau Adnoddau Cymunedol mewn ardaloedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Mae gweithwyr iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu dwyn ynghyd mewn Timau Adnoddau Cymunedol, gyda'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol drwy ddarparu gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty. Mae'r timau hyn yn darparu asesiadau amlldisgyblaethol, adsefydlu, cymorth gofalwyr a gofal cymdeithasol, ac arsylwadau clinigol, yn ogystal â rhoi cyngor ar iechyd, maeth, meddyginiaeth a llesiant.

Canlyniadau

- Mae 14 o 'ardaloedd' iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn cael eu sefydlu, sy'n parchu daearyddiaeth ac adnoddau lleol.
- Bydd yr ardaloedd, pan fyddant yn gwbl aeddfed, yn gyfrifol am gomisiynu a defnyddio adnoddau, gyda thimau arweinyddiaeth ar waith i sicrhau y cyflawnir y lefel briodol o atebolrwydd a llywodraethu.

- Mae 19 o Dimau Adnoddau Cymunedol yn gweithio ar draws y rhanbarth, ac mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau eu bod nid yn unig wedi'u cydleo'i (naill ai'n gorfforol neu'n rhithwir), ond eu bod yn gweithredu fel endidau integredig.
- Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i allu gwasanaethau a thimau i integreiddio. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cytundeb rhannu gwybodaeth rhanbarthol, ac yn lleol, datblygwyd mentrau fel safleoedd SharePoint sy'n gweithredu fel platfform sydd ar gael i bob partner i rannu gwybodaeth am Dimau Adnoddau Cymunedol a'r Rhaglen Trawsnewid yn fwy cyffredinol.
- Mae model ar gyfer integreiddio darparwyr y sector annibynnol i'r Timau Adnoddau Cymunedol yn cael ei weithredu yn y Gorllewin.
- Datblygwyd systemau yn ne Wrecsam i alluogi nyrsys ardal i gael gafael ar y cofnod gofal sylfaenol ac ychwanegu cofnodion ato.

Camau Nesaf

- Mae Llwybrau D2RA yn cael eu hymwreiddio a'u gweithredu ar draws y rhanbarth.
- Mae un pwynt mynediad yn cael ei sefydlu ar gyfer pob Tîm Adnoddau Cymunedol yn Ynys Môn.
- Mae gwaith 'Right Sizing Communities Services for Discharge' yn mynd rhagddo i ddeall y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan er mwyn cael darlun cyflawn a deallus o lif galw a chapasiti. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ymestyn yng Nghonwy a Sir Ddinbych, drwy waith i gynnal dadansoddiad systemau cyfan.

Rhagor o Wybodaeth

Cyswllt:

Jo.Flannery@denbighshire.gov.uk

Gwefan:

www.northwalescollaborative.wales/transformation-programme/community-services/

Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)



Gweinyddu

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Cyllid Trawsnewid

Cynllun peilot yn ardal Gogledd Powys.

Disgrifiad

Nod Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) ym Mhowys yw darparu mynediad cyflymach i iechyd a gofal yn y gymuned ac felly lleihau hyd arhosiad yn yr ysbyty, sicrhau rhyddhau amserol ac osgoi derbyniadau amhriodol gan ddefnyddio'r Ward Rithwir.

Crynodeb

Mae llwybr Gartref yn Gyntaf D2RA (Llwybr un a dau'r Uned Gyflawni) yn cynorthwyo cleifion i ddychwelyd i'w cartref eu hunain yn dilyn derbyniad aciwt neu gymunedol i'r ysbyty. Mae'r tîm a arweinir gan therapi 'Gartref yn Gyntaf' yn darparu cymorth cofleidiol i unigolion am hyd at ddeg diwrnod ar ôl eu rhyddhau wrth asesu unigolyn gartref i benderfynu pa gymorth neu ymyrraeth sydd ei angen.

Gwnaed hyn drwy ddatblygu'r Tîm Cymunedol Integredig sy'n helpu i gadw pobl gartref heb ddibynnu ar y gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfuniad o'r peilot rhyddhau i asesu a mentrau nyrsio yn y gymdogaeth.

Canlyniadau

- Bu mwy o ymgysylltu gan staff mewn lleoliadau aciwt, gan gysylltu'n uniongyrchol â thîm Gartref yn Gyntaf i drafod addasrwydd cleifion.
- Datblygwyd Ymateb Brys y Sector Cymunedol – gan gydlyn rhwydweithiau lluosog i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth ymarferol yn ystod pandemig COVID-19 drwy sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol.
- Gellir mesur y llwyddiant gan nad oes angen gwasanaeth statudol parhaus e.e. ail-alluogi, therapi cymunedol ar 50% o'r cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Cafwyd rhai heriau, yn fwyaf nodedig salwch staff, adleoli, a recriwtio staff addas a chyllid.

Camau Nesaf

- Bydd y mentrau rhyddhau i asesu a nyrsio cymdogaeth, sydd wedi'u nodi fel 'blaenoriaeth cyflymu ar gyfer newid', yn rhan o'r gwaith ar y Tîm Cymunedol Integredig.
- Nod integreiddio'r timau yw creu model gweithlu mwy cynaliadwy a fydd yn osgoi derbyniadau diangen ac yn cefnogi'r targed ymateb dwy awr ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.
- Bydd hyn yn cynnwys ymwreiddio ffyrdd newydd o weithio drwy dechnoleg ddigidol.

Rhagor o Wybodaeth

Cyswllt:

joanne.williams17@wales.nhs.uk

Erthygl y GIG:

<https://pthb.nhs.wales/news/health-board-news/an-occupational-therapy-led-discharge-to-recover-and-assess-model-in-powys-is-supporting-people-to-return-home-promptly-and-safely-from-hospital/>

Model Gofal Optimaidd



Gweinyddu

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Gorllewin Morgannwg**

Cronfa Gofal Integredig

**Yn cwmpasu ardaloedd Abertawe
a Chastell-nedd Port Talbot.**

Disgrifiad

Lansiwyd y prosiect i ddechrau fel Model Gofal Optimaidd rhanbarthol yn 2016, a'i brif nod yw helpu pobl hŷn sy'n mynd yn sâl i aros yng nghysur eu cartref eu hunain, gan osgoi arhosiad mewn ysbyty oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol, a'u cynorthwyo i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd, gan ddefnyddio dull "beth sy'n bwysig i mi". Os bydd angen derbyn pobl i'r ysbyty, nod y gwasanaeth yw cynorthwyo pobl hŷn i ddychwelyd i'w cartref cyn gynted ag y byddant yn ddigon da i gael eu rhyddhau. Cafodd y model hwn ei wella ymhellach drwy lansio Gwasanaeth O'r Ysbyty i'r Cartref pwrpasol yn cynnwys ethos "Gartref yn Gyntaf" a lansiwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2019.

Crynodeb

Gwasanaeth yn y gymuned i gynorthwyo pobl dros 65 oed gartref pan fyddant yn sâl, naill ai i aros gartref neu i'w helpu i ddychwelyd adref o'r ysbyty cyn gynted â phosibl, gan ddarparu cymorth yn eu cartref eu hunain a'u helpu i gadw neu adennill annibyniaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys gwahanol gydrannau, gan gynnwys:

- **pwyt mynediad cyffredin:** un pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau i ofal cymdeithasol i oedolion sy'n darparu asesiadau cyflym ac ymyriadau clinigol i osgoi derbyn i'r ysbyty, drwy wasanaethau gan gynnwys Tîm Clinigol Aciwt;
- **gwasanaeth ail-alluogi:** darpariaeth cymorth tymor byr yn y cartref neu gymorth preswyl i wneud y gorau o fywyd bob dydd a galluogi annibyniaeth barhaus;
- **llwybr lleoliad gofal:** i'r rhai ag anghenion mwy cymhleth,
- **gwasanaeth trydydd sector:** sy'n cynnig cyngor a chymorth drwy amrywiaeth o sefydliadau i gynorthwyo pobl i ddod adref ar ôl bod yn yr ysbyty.

Canlyniadau

- O ganlyniad i'r model hwn bu gostyngiad yn nifer y bobl a gynorthwyir mewn Cartrefi Gofal Preswyl a nifer y derbyniadau i gartrefi gofal preswyl ledled y rhanbarth ers dechrau adrodd yn 2016.
- Er y bu gostyngiad sylweddol yn y galw oherwydd COVID-19, o fis Ebrill i fis Awst 2020 mae 682 o bobl hŷn wedi cael cymorth gan y tîm Clinigol Aciwt, gan gynnal eu hannibyniaeth gartref ac osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, gyda chyfanswm y gost a gafodd ei hosgoi yn £712,640.
- Yn yr un cyfnod, hwyluswyd 286 rhyddhad ailalluogi, gan helpu pobl hŷn i wneud y gorau o'u lles a'u hannibyniaeth.
- Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol wedi cynorthwyo 234 o unigolion gyda therapi ac ymyriadau i'w cynorthwyo i aros gartref cyhyd â phosibl.
- Mae'r Gwasanaeth Llesiant Cymunedol a arweinir gan y trydydd sector a lansiwyd ar 1 Gorffennaf 2020 wedi derbyn a gweithredu ynghylch 90 o atgyfeiriadau rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr 2020, mae'r llwybr hwn yn parhau i gael ei ddatblygu gydag atgyfeiriadau'n cynyddu wrth i'r gwasanaeth ymwreiddio.

Camau Nesaf

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddychwelyd i gapasiti llawn yn dilyn y gostyngiad yn y capasiti ar gyfer gwasanaethau oherwydd COVID-19.

Rhagor o Wybodaeth

Cyswllt:

Kate.Kinsman@swansea.gov.uk

PIVOT



Gweinyddu

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Cronfa Gofal Integredig

Yn cwmpasu ardaloedd Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion

Disgrifiad

Prif nod Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro (PIVOT) oedd helpu pobl hŷn sy'n mynd yn sâl i aros yn annibynnol, yng nghysur eu cartref eu hunain, gan osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Yn ogystal, ei nod yw ychwanegu gwerth at nifer o gynlluniau sy'n bodoli eisoes drwy lenwi bylchau mewn darpariaeth fwy ffurfiol yn dibynnu ar anghenion pob cleient, gan gydgyssylltu â gwasanaethau lleol a chenedlaethol eraill.

Crynodeb

Mae PIVOT yn drefniant cydweithredol gyda'r Tîm Cymorth Amlasiantaethol (MAST) a chynlluniau cymunedol eraill fel Gofal a Thrwsio a chlybiau cinio, i ddarparu cymorth "cofleidiol" i'r rhai sydd am aros yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain neu ddychwelyd iddynt.

Os oes angen i berson hŷn fynd i'r ysbyty, mae PIVOT yn ei gynorthwyo i ddychwelyd adref cyn gynted ag y bydd yn ddigon da i wneud hynny, gan ddarparu rhyddhad amserol ac effeithiol o'r ysbyty. Mae pobl yn cael cymorth i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd hefyd, gyda chyfleoedd yn cael eu darparu i wella annibyniaeth a lleihau unigedd cymdeithasol.

Mae'r gwasanaethau a gynigir drwy'r prosiect PIVOT yn cynnwys: cludiant y tu allan i oriau i'r rhai sy'n cael eu dychwelyd adref; darparu nwyddau groser sylfaenol; sicrhau bod cyfleustodau'n gwbl weithredol a bod mân atgyweiriadau'n cael sylw wrth ddychwelyd adref; cysylltu â theuluoedd; a dilyn hyn gyda gwasanaethau cyfeillio a gwasanaethau eraill sy'n mynd i'r afael ag unigedd lle bo hynny'n briodol.

Mae PIVOT yn gweithredu fel pwynt mynediad ac yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau lleol eraill, gan ddod â'r gwasanaethau mwyaf priodol at ei gilydd i wella'r canlyniadau i gleifion a'u helpu i aros yn annibynnol.

Canlyniadau

Roedd gwasanaethau PIVOT yn hanfodol ar gyfer arbed diwrnodau gwely a gwella llesiant a chanlyniadau cleifion. Cyn COVID-19 yn ystod Chwarteri 1 a 2 2020-21 darparodd PIVOT wasanaethau i 474 o bobl:

- Cynorthwywyd 31 o bobl yn ystod rhyddhau o Adran Damweiniau ac Achosion Brys.
- Darparwyd cludiant adref o'r ysbyty i 157 o bobl.
- Rhoddwyd cymorth i 109 o bobl gartref ar ôl arhosiad yn yr ysbyty.
- Rhoddwyd cymorth i 177 o bobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty.
- Roedd gwasanaethau PIVOT yn rhan annatod o'r ymateb i COVID-19 hefyd, gan adeiladu ar yr integreiddio yr oeddent wedi'i sefydlu gyda gwasanaethau eraill yn y Gorllewin, yn enwedig gyda'r Tîm Ymateb Cymunedol i sefydlu gweithio cydgysylltiedig gyda'r trydydd sector.

Camau Nesaf

Datblygu a gweithredu strategaeth ymadael i lywio'r ffordd drwy ddiwedd cyllid y Gronfa Gofal Integredig.

Rhagor o Wybodaeth

Cyswllt:

MJPalfreman@carmarthenshire.gov.uk

Fideo:

www.youtube.com/watch?v=qpWdABCKuyY&feature=emb_logo

Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 1: Modelau presennol ledled y DU

Trafodwyd enghreifftiau o fodel D2A yn Lloegr hefyd, ynghyd â modelau O'r Ysbyty i'r Cartref eraill o bob rhan o weddill y DU, yn ystod Sesiwn 1 y Gymuned Ymarfer. Er y cydnabuwyd y bydd gweithredu a darparu gwasanaethau yn anochel yn wahanol yn dibynnu ar drefniadau sefydliadau lletyol ac anghenion y boblogaeth darged, mae egwyddorion sylfaenol y modelau a gyflwynir yn dal i fod yn gyson waeth beth fo'u lleoliad.

Gellir dod o hyd i grynodedb o'r modelau rhyddhau iasesu yn Lloegr yma¹⁶.

Gogledd Swydd Stafford: Track and Triage

Roedd y system yng Ngogledd Swydd Stafford yn wynebu nifer o broblemau, gan gynnwys ymarfer gwrth-risg a gwasanaethau tameidiog yn y gymuned.

My Care, My Way, Home First

www.healthservicesnorthstaffs.nhs.uk/our-journey/my-care-my-way/my-care-my-way-home-first

CQC Local System Review Report

www.cqc.org.uk/sites/default/files/20181214_local_system_review_staffordshire.pdf

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol: Track and Triage

local.gov.uk/north-staffordshire-track-and-triage



Medway: Home First

Mae Home First yn fenter a ddatblygwyd drwy bartneriaeth rhwng Medway Foundation Trust Hospital, Medway Clinical Commissioning Group, Medway Council a Medway Community Healthcare. Mae'n rhoi cymorth i gleifion sy'n feddygol addas i gael eu rhyddhau, ond sydd angen cymorth ychwanegol yn y cartref o hyd.

Medway Home First Pledge

www.nhs.uk/NHSEngland/keogh-review/Documents/quick-guides/background-docs/3-medway-D2A-model.docx

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol: Medway Home First

www.local.gov.uk/medway-home-first



16 www.local.gov.uk/our-support/our-improvement-offer/care-and-health-improvement/systems-resilience/overall-approach/discharge-to-assess

Surrey: discharge to assess

Yn Nwyrain Surrey, mae gofal cymdeithasol i oedolion a'r Grŵp Comisiynu Clinigol yn cydweithio i dreialu'r defnydd o ryddhau cleifion i asesu ar gyfer pob asesiad gofal iechyd parhaus.

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:

Surrey Discharge to Assess

www.local.gov.uk/surrey-discharge-assess



Tower Hamlets: admission avoidance and discharge service (AADS) and discharge to assess

Dechreuwyd cynllun peilot a ariannwyd gan y Grŵp Comisiynu Clinigol yn 2015, gan ddechrau gyda 15 o gleifion a rhedeg ochr yn ochr â chynlluniau cydnerthu eraill y gaeaf, gan gynnwys tîm osgoi derbyniadau, gwasanaeth Ysbyty i'r Cartref a gwaith cymdeithasol y tu allan i oriau.

UCL Tower Hamlets Pathways: Admission Avoidance and Discharge

www.ucl.ac.uk/epidemiology-health-care/sites/epidemiology-health-care/files/pathway_th.pdf

Cyflwyniad: Discharge to Assess in Tower Hamlets

londonadass.org.uk/wp-content/uploads/2016/10/DToC-Roadshow-18.10.16-D2A.pdf

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol: Tower Hamlets Admission Avoidance and Discharge Service (AADS) and Discharge To Assess

www.local.gov.uk/tower-hamlets-admission-avoidance-and-discharge-service-aads-and-discharge-assess



COVID-19 good practice case study: Discharge to assess in Warwickshire

Mae'r system iechyd a gofal yn Swydd Warwick wedi cynnal, ac wedi cryfhau, ei model 'rhyddhau i asesu' drwy gyfnod COVID-19 drwy barhau i gadw at ei hegwyddor graidd o gynnal dull Gartref yn Gyntaf sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

NHS Quick Guide: Discharge to Assess in Warwickshire

www.nhs.uk/NHSEngland/keogh-review/Documents/quick-guides/background-docs/1-south-warwickshire-D2A-model.pdf

Cost Impact of the D2A Pathway Acute Spell in Warwickshire

www.nhs.uk/NHSEngland/keogh-review/Documents/quick-guides/background-docs/1-south-warwickshire-D2A-model.pdf

Cyflwyniad: Discharge to assess in Warwickshire for Kings Fund

www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/media/Bie%20Grobet%20-%20Discharge%20to%20assess%20Warwickshire%20model.pdf

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:

Discharge to assess in Warwickshire

<https://www.local.gov.uk/COVID-19-good-practice-case-study-discharge-assess-warwickshire>



Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 2: Datblygu Diwylliant Cadarnhaol er mwyn Rheoli Risg

Roedd Sesiwn Cymuned Ymarfer 2 yn canolbwyntio ar reoli risg a sut i wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau drwy fabwysiadu diwylliant risg mwy cadarnhaol, yn enwedig wrth ystyried penderfyniadau am ryddhau o'r ysbyty.

Bwriad y prosesau presennol sydd ar waith mewn ysbytai aciwt yw lleihau'r risg i gleifion drwy gyfres o weithdrefnau, gwiriadau ac asesiadau penodol. Fodd bynnag, gall dibyniaeth gynyddol ar ryngweithio anhyblyg a gaiff eu llywio gan brosesau lyncu amser staff (hyd at 80%) yn aml, gan arwain at ryngweithio cyfyngol rhwng cleifion, achosi oedi diangen o ran rhyddhau cleifion ac yn y pen draw olygu niwed anfwriadol a achosir gan oedi diangen o ran rhyddhau cleifion.

Gall symud o'r rhyngweithiadau hyn sy'n cael eu llywio'n helaeth gan brosesau, sy'n canolbwyntio ar anghenion y system, tuag at gyfres o sgysiau grymuso sy'n mynd i'r afael ag amgylchiadau unigryw, helpu i ailffocysu rhyngweithiadau tuag at anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, lleihau canlyniadau negyddol, cynyddu ymreolaeth cleifion i'r eithaf a chefnogi canlyniadau cynaliadwy. At hynny, er bod rhyngweithiadau a arweinir gan brosesau yn ceisio lleihau niwed corfforol, mae dull mwy agored a greddfyl yn golygu y gellir ystyried anghenion llesiant ehangach, megis: tosturi, parch, diben, cyfranogiad a'r angen am berthnasodd allanol.

Ffigur 9: Manteision dull rheoli risg cadarnhaol

Rhyngweithio seiliedig ar broses

- Gwthio staff tuag at sgysiau cyfyngol.
- Ffocws ar anghenion y system yn hytrach nag anghenion unigolion.



**Newid
Dull**



Sgysiau grymuso

- Mynd i'r afael â phob set unigryw oamgylchiadau.
- Cynorthwyo gyda datrys problemau, cydweithio, ymreolaeth ac annibyniaeth.



Er mwyn galluogi'r newid tuag at ddull mwy grymusol, dylid cefnogi'r gweithlu i ddatblygu'r sgiliau 'gwrando i ddeall' perthnasol. Maent yn cynnwys:


- Gwrando gweithredol – clywed beth sy'n cael ei ddweud, yn hytrach na gwrando am atebion disgwylidig.
- Datganiadau myfyriol – annog pobl i fyfyrion ar y sefyllfa ehangach.
- Cwestiynu agored – osgoi cwestiynau unffurf sy'n arwain at ymatebion cyfyngol.

Bydd newid y ffordd o ymdrin â rhyngweithiadau'n helpu i ryddhau ffyrdd o feddwl hefyd.

Mae hyn yn cefnogi datblygiad gweithlu deinamig a medrus, sy'n chwilio am ffyrdd mwy creadigol o weithio er mwyn deall a datrys cyfyng-gyngor penodol, gan ddefnyddio ymwybyddiaeth o gryfderau, heriau a risg canfyddedig i sefydlu canlyniadau cynaliadwy sy'n sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Astudiaeth Achos

Cyflwynwyd yr astudiaeth achos ganlynol i'r Gymuned Ymarfer i ddangos sut y gall diwylliant risg negyddol a dilyn dulliau sy'n seiliedig i raddau helaeth iawn ar brosesau arwain at ganlyniadau negyddol, er gwaethaf bwriadau gorau pawb dan sylw.



Sefyllfa

Mae Mr X yn ŵr oedrannus sydd ar ward mewn ysbyty aciwt.

Mae nyrs y ward wedi atgyfeirio Mr X o ryddhau cyflym i wasanaethau cymunedol ar gyfer meddyginiaeth yn unig. Fel arall, mae e mewn cyflwr da yn feddygol adeg yr atgyfeiriad.

Cyd-destun

Mae Mr X yn byw gartref gyda'i wraig, Mrs X, sydd wedi cael diagnosis o ddementia datblygedig ac mae pecyn gofal ar waith ar ei chyfer.

Mae Mr a Mrs X ill dau wedi dweud eu bod am aros yn eu cartref, ond mae'r ddau wedi bod yn gynydd o gael gofal yn eu cartref yn y gorffennol.

Mae aelodau o deulu Mr X yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn parhau'n gefnogol o'i ddymuniad i aros yn ei gartref.



Gweithredu

Mae achos Mr X yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y tîm amlddisgyblaethol, gyda nyrsys ardal, meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, ffisiotherapyddion a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill yn bresennol.

Mae'r trafodaethau'n ystyried a ddylid cynnig gwasanaeth ail-alluogi seiliedig ar therapi neu wasanaeth broceriaeth hirdymor, o'r maint cywir drwy therapydd, i Mr X.

Gofynnir y cwestiynau canlynol:

- Ydy'r angen yn un corfforol neu wybyddol?
- Oes gan yr unigolyn y galluedd i reoli meddyginiaeth heb gael ei atgoffa?
- O ystyried hanes yr unigolyn, a fyddai'n derbyn cael gofal yn y cartref?
- Ydy e'n gallu gwneud gweithgareddau bywyd bob dydd eraill?
- Oes gan yr unigolyn anghenion ail-alluogi?



Canlyniad

- Mae'n cymryd 11 diwrnod o adeg gwneud atgyfeiriad i'r sgysiau a'r asesiadau sy'n ymwneud ag achos Mr X gael eu cwblhau. Ymhen hir a hwyr, mae'n cael ei ryddhau i'w gartref.
- Yn ystod y cyfnod hwn, mae Mr X yn cael ei drosglwyddo i ysbyty arall, gan greu rhagor o rwystredigaeth a dryswch.



Casgliad

Fe wnaeth diwylliant risg negyddol yn seiliedig ar sgysiau rhagdybiaethol a gorddibyniaeth ar broses arwain at oedi annerbyniol yn y penderfyniad i ryddhau Mr X.

Gyda gwasanaethau gofal eisoes yn cael eu darparu i'r cartref a bod rhwydwaith o gymorth teuluol, roedd mecanweithiau eisoes ar waith i ryddhau Mr X yn gynt, gan reoli'r risgiau a nodwyd yn briodol.

Er gwaethaf pob bwriad da, aeth penderfyniadau staff yn groes i ddymuniadau Mr X a chyfrannu at ei drallod. Gellid bod wedi osgoi hyn drwy fabwysiadu meddylfryd 'gartref yn gyntaf' ar draws y bwrdd iechyd a gweithredu agwedd fwy cadarnhaol at ddiwylliant risg.

Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 3: Adeiladu sylfaen dystiolaeth er mwyn dangos llwyddiant

Mae **Mesurau Perfformiad** yn darparu dull systematig a safonol o gasglu data ar gyfer prosiect neu wasanaeth, y gellir eu defnyddio i ddadansoddi a mesur perfformiad yn erbyn meincnodau a bennwyd ymlaen llaw. Maent yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn ôl y bwriad, bod amcanion yn cael eu cyflawni ac y sylwir ar broblemau cyn iddynt waethgu a throï'n broblemau mwy difrifol.

Arweiniodd trafodaeth ar ofynion mesur gwasanaeth O'r Ysbyty i'r Cartref at y casgliadau canlynol gan y cyfranogwyr:

Safoni mesurau a phrosesau: Cytunwyd y dylid safoni'r broses o gasglu data i fesur perfformiad gwasanaethau ar draws rhanbarthau lle bo modd. Bydd hyn yn galluogi gweithredu unffurf a chymhariaeth gywir rhwng rhaglenni.

Mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau: Er y cydnabuwyd bod angen mesurau proses i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon

ac yn ôl y bwriad, anogodd y cyfranogwyr ffocws ar fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, yn hytrach nag allbwn, i sicrhau bod pwyslais yn parhau ar sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Sgiliau ac Adnoddau: Nododd y cyfranogwyr fod digon o amser, capasiti ac addysg ar brosesau casglu/ adrodd yn hanfodol i sicrhau cynrychiolaeth gywir o berfformiad gwasanaethau. Ystyriwyd bod symleiddio'r ffordd y caiff data ei gasglu a'i adrodd, tra'n sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'r unigolyn, yn un o ofynion sylfaenol mesur perfformiad gwasanaethau.

Nod trafodaeth bellach, wedi'i llywio gan y mesurau a gynigiwyd gan yr Athro John Bolton (Ffigur 10 isod), oedd dechrau datblygu set graidd o ddangosyddion y gellir eu defnyddio ar draws gwasanaethau ar gyfer pob un o'r llwybrau D2RA.

Ffigur 10: Mesur perfformiad ar gyfer prosiectau a gwasanaethau

Mesurau Proses



Gofyn “faint ydych chi wedi ei wneud?” a “pa mor dda ydym ni wedi ei wneud?”.

Canolbwyntio ar y mewnbynnau, allbynnau a gweithredu'r cyflawni.

Enghraifft gan yr Athro John Bolton:

- Pa ganran o bobl hŷn sydd angen cymorth ffurfiol (llwybrau 1, 2 neu 3) gan wasanaeth gofal ar ôl rhyddhau?
- Pa ganran o'r bobl hŷn hyn sydd angen cyfleusterau â gwelyau?
- Pa ganran o bobl hŷn sy'n aros am y gwasanaeth y maent wedi cael eu hasesu ar ei gyfer?
- Pa ganran o blant hŷn sy'n barod i gael eu rhyddhau ond sydd heb gael asesiad ar gyfer y cymorth y gallai fod ei angen arnynt?
- Pa gyfran o bobl hŷn sy'n cael eu hoedi yn yr ysbyty pan fyddant yn ddigon da yn feddygol i gael eu rhyddhau?
- Pa gyfran o bobl hŷn a dderbyniodd gymorth hirdymor (fel gwasanaeth newydd) ar ôl bod yn yr ysbyty heb gael cynnig cyfnod o adfer/cymorth?

Mesurau Canlyniad



Gofyn “a oes unrhyw un yn elwa?”.

Canolbwyntio ar effeithiau a chanlyniadau ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y ddarpariaeth gwasanaeth.

Enghreifftiau gan yr Athro John Bolton:

- Pa ganran o'r rheini sy'n mynd i gyfleusterau â gwelyau yn y tymor byr sy'n dychwelyd adref?
- Pa ganran o'r rhai sy'n cael cynnig gwasanaeth ail-alluogi gofal cartref neu wasanaethau tebyg nad oes angen unrhyw gymorth pellach arnynt neu sydd angen llai o gymorth ar ôl tri mis?
- Pa ganran o bobl hŷn sy'n mynd yn uniongyrchol i gartref preswyl neu nyrso o'r ysbyty fel rhywle newydd i fyw?

Fel rhan o'r trafodaethau, cynigiwyd nifer o fesurau perfformiad gan y cyfranogwyr fel meysydd ar gyfer datblygu data posibl dros amser (gweler Ffigur 12).

Cytunwyd bod y mesurau hyn yn feysydd o ddiddordeb er mwyn deall effeithiolrwydd y system ond y byddai angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddiffiniadau cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb a datblygu systemau i alluogi casglu data.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y dyfodol ond yn y cyfamser, cytunwyd ar bum mesur D2RA cenedlaethol fel cynllun peilot (Ffigur 11) i rannu dysgu o ran casglu data ac i ddechrau'r broses ar gyfer gwella gwybodaeth fusnes mewn perthynas â gweithredu'r Model D2RA. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gasglu, monitro ac adolygu'r mesurau hyn gyda'r bwriad o'u mireinio fel y bo'n briodol.

Ffigur 11: Mesurau D2RA cenedlaethol

Rhif	Ffocws	Mesur
Mesur 1	Faint?	Faint o bobl a gafodd eu trosglwyddo i bob Llwybr D2RA
Mesur 2	Pa mor dda?	% y trosglwyddiadau hynny a ddigwyddodd o fewn 48 awr i wneud y penderfyniad (eu bod yn barod i gael eu trosglwyddo o ysbyty i'r llwybr hwn ar gyfer adfer ac asesu gyda chymorth)
Mesur 3	Pa mor dda?	% y bobl a gafodd eu trosglwyddo i Lwybr D2RA gyda chynllun adfer wedi'i gyd-gynhyrchu ar waith
Mesur 4	A oes unrhyw un yn elwa?	% y bobl a gafodd eu trosglwyddo allan o'r Llwybr D2RA i'w preswylfan arferol
Mesur 5	Pa mor dda?	% y bobl a gafodd eu derbyn drachefn i'r ysbyty o fewn 28 diwrnod

Perfformiad D2RA posibl ar gyfer Datblygu Data yn y Dyfodol

Ffigur 12: Mesurau perfformiad D2RA posibl fesul llwybr

Llwybr 1	Llwybr 2 & 4	Llwybr 3
		
Troi o amgylch gan y Tîm Amlddisgyblaethol yn y Drws Ffrynt	D2RA gartref neu mewn cyfleuster gofal cyfredol	D2RA mewn cyfleuster gofal â gwelyau canolraddol
Faint?		
% y bobl sy'n cael eu 'troi o amgylch' yn y drws ffrynt	% y bobl sy'n cael eu derbyn ar y Llwybr	% y bobl sy'n cael eu derbyn ar y Llwybr
Tarddiad y claf (h.y. dod ar ei liwt ei hun, y Gwasanaethau Ambiwylans)	% y cleifion sy'n derbyn pob gwasanaeth cymorth	Nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau i bob cyfleuster
Nifer yr unigolion sy'n cael eu rhyddhau i bob gwasanaeth	Nifer y cynlluniau cymorth sydd wedi'u rhoi ar waith	Nifer y bobl sy'n cael eu trosglwyddo i Llwybr 2 yn dilyn cyfnod mewn cyfleuster â gwelyau
Pa mor dda?		
% y derbyniadau y gellid bod wedi'u hosgoi	Nifer y darparwyr gwasanaethau rhwng atgyfeirio a rhyddhau	Amser cyfartalog rhwng atgyfeiriad i gyfleuster gofal a throsglwyddo
Nifer y cynlluniau rhyddhau a roddir ar waith	Yr amser rhwng atgyfeirio a rhyddhau	Hyd cyfartalog yr amser a dreulir mewn cyfleuster â gwelyau
Cyfradd ail-dderbyn (o fewn amser penodol)	Cyfradd derbyn drachefn (o fewn cyfnod penodol)	% y cleifion sy'n dychwelyd adref ar ôl cael eu derbyn i gyfleuster â gwelyau
A oes unrhyw un yn elwa?		
Nifer y 'diwrnodau gwely' sydd wedi'u hosgoi	% yr unigolion sy'n dychwelyd i'w preswylfan gwreiddiol adeg cael eu derbyn	% yr unigolion a dderbyniwyd sy'n dweud bod eu lles wedi gwella
Lefel boddhad y sawl sy'n cael ei ryddhau	Lefel boddhad y sawl sy'n cael ei ryddhau	Lefel boddhad y sawl sy'n cael ei ryddhau
Lefel annibyniaeth ar ôl dychwelyd adref	Lefel annibyniaeth ar ôl dychwelyd adref	Lefel annibyniaeth ar ôl dychwelyd adref

Dysgu Allweddol – Sesiwn Cymuned Ymarfer 4: Dull myfyriol o gynllunio yn y dyfodol

Nod pedwaredd sesiwn Cymuned Ymarfer O'r Ysbyty i'r Cartref oedd casglu barn ar y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid presennol, gyda'r bwriad o ddefnyddio adborth cyfranogwyr i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni ariannu yn y dyfodol ar ôl mis Mawrth 2022.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr fyfyrir ar eu profiadau o ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau; nodi llwyddiannau a meysydd i'w gwella; awgrymu blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni ariannu yn y dyfodol; ac amlygu meysydd posibl y mae angen cymorth a buddsoddiad pellach arnynt.

Pwyntiau Allweddol o'r Trafodaethau

C1. Beth sydd wedi gweithio'n dda a heb weithio cystal yn rhaglenni presennol y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid?

✓ **Integreiddio gwasanaethau –**
Mae'r rhaglenni wedi hwyluso symudiad tuag at systemau a gwasanaethau mwy integredig, yn enwedig ar draws y trydydd sector ac awdurdodau lleol.

✗ **Recriwtio dros dro –**
Mae cyllid tymor byr wedi arwain at broblemau o ran recriwtio a chadw staff. Yn aml, dim ond dros dro y gellir cynnig contractau ac nid ydynt yn llwyddo i ddenu'r lefelau gofynnol o ddiddordeb. Gwaethygir hyn lle mae nifer o ranbarthau'n cystadlu am staff o fewn yr un gronfa dalent a lle mae ffactorau daearyddol yn gwneud adleoli'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth.

✓ **Gweithio mewn partneriaeth –**
Mae cydweithio a datblygu perthynas wedi bod yn hynod lwyddiannus, gan helpu i wella dealltwriaeth o'r system gyfan.

✗ **Cyfyngiadau amser –**
Mae amserlen fer y rhaglenni wedi'i gwneud yn anodd dangos effaith gwasanaethau newydd. Nododd cyfranogwyr fod cynllunio gwasanaethau, cytuno ar gyllid rhwng partneriaid, rhoi trefniadau llywodraethu ar waith a pharatoi ar gyfer casglu data i gyd yn cymryd cryn amser, gan adael ychydig iawn o amser i sefydlu gwasanaethau a chyflawni canlyniadau.

✓ **Ariannu dwbl –**
Mae gallu 'ariannu dwbl' y Gronfa Trawsnewid wedi galluogi partneriaid i ddatblygu gwasanaethau newydd na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

✗ **Cronfeydd ariannu lluosog –**
Mae ffrydiau ariannu lluosog, nad ydynt yn alinio â'i gilydd, wedi mynd yn rhy gymhleth, gan arwain at gyfyngiadau sylweddol o ran amser ac adnoddau ymhlith partneriaid. Mae gwneud cais am nifer o wahanol raglenni ariannu, adrodd iddynt a'u darparu yn llyncu amser ac adnoddau gwerthfawr ac yn arwain at ddyblygu gwaith a chreu haenau o wasanaethau.

✓ **Hyblygrwydd –**
Mae rhywfaint o hyblygrwydd wedi galluogi sefydliadau i addasu a datblygu'n barhaus, tra'n cefnogi'r gwaith o weithredu atebion lleol ar gyfer problemau lleol.

✗ **Cynaliadwyedd –**
Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch cynaliadwyedd prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, gyda chyllidebau craidd yn methu â chynnal gwasanaethau unwaith y bydd y rhaglenni ariannu'n dod i ben. At hynny, yn dilyn y cyfnod diweddar o gyni, mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i reoli pwysau cynyddol ac felly ni ellir gwireddu'r effaith lawn.

✓ Ffocws ar ganlyniadau – Rhoddwyd derbyniad cadarnhaol i drylwyrdd yn ymwneud â chanlyniadau, er bod cyfranogwyr yn awgrymu symud tuag at nifer llai o ganlyniadau ‘cnebyn euraid’ cyson yn y dyfodol.	✗ Dull rhanbarthol tameidiog – Dyweddodd rhai rhanbarthau ei bod yn anodd cynnal dull rhanbarthol cyson ar lefel strategol. Mae rhwystredigaethau wedi codi ymhlith rhanbarthau sy’n cwrdd ardal oedd gwahanol, gan lesteirio gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu gwasanaethau o dro i dro.
✓ Sefydlogrwydd – Mae’r rhaglenni wedi darparu’r sefydlogrwydd a’r capasiti sydd eu hangen i gefnogi mwy o greadigrwydd ac i dreialu ffyrdd newydd o weithio, er gwaethaf yr amgylchedd ansicr.	✗ Casglu data – Ni lwyddwyd i gyflawni dull system gyfan o gasglu data. Mae cymhlethdodau yn y system yn gofyn am ddull cydweithredol o ymdrin â chymorth dadansoddol, gydag atebion lleol presennol yn dibynnu ar ymdrechion unigolion brwdfrydig yn aml.
✓ Newid diwylliant – Nodwyd bod symud o fodel sy’n canolbwyntio’n gyfan gwbl ar anghenion staffio i fodel sy’n canolbwyntio ar wasanaethau, gan symud ffocws tuag at ddulliau cydgysylltiedig seiliedig ar gleifion a symud ffocws oddi wrth oedi wrth drosglwyddo gofal, i gyd yn newidiadau cadarnhaol mewn diwylliant.	✗ Rhyngweithio â gofal eilaidd – Erys ansicrwydd o ran deall sut mae’r Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid yn rhyngweithio ac yn gorgyffwrdd â gofal eilaidd.
✓ Cydnabod gwasanaethau cymunedol – Mae’r rhaglenni wedi helpu i gydnabod gwerth gwasanaethau cymunedol gan alluogi symud oddi wrth y dull presennol sy’n canolbwyntio ar ofal eilaidd.	✗ Cydweithredu â gwasanaethau aciwt – Adroddwyd am anawsterau wrth ymgysylltu â gwasanaethau aciwt a sefydlu trafodaeth ehangach ynghylch gwasanaethau cymunedol.
✓ Timau a arweinir gan therapi – Helpodd y ddwy gronfa i hyrwyddo sefydlu timau a arweinir gan therapi wrth ddarparu D2RA.	

C2. Sut rydym yn datblygu rhaglen sy'n galluogi i fodel cenedlaethol o Gartref yn Gyntaf / D2RA gael ei ymwreiddio tra'n parhau i alluogi hyblygrwydd lleol?

Roedd y themâu canlynol yn gyffredin ar draws y grwpiau wrth drafod elfennau yr hoffent eu gweld mewn rhaglenni yn y dyfodol:

• Newid diwylliannol parhaus –

Er bod cyfranogwyr yn cydnabod bod rhaglenni'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid wedi cyflawni rhywfaint o newid diwylliannol, awgrymwyd bod angen mwy o newid diwylliannol ar lawr gwlad er mwyn sefydlu D2RA wrth symud ymlaen. Roedd y mecanweithiau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Ymgorffori mewn hyfforddiant israddedig ar draws disgyblaethau, fel bod pobl yn dod allan gan wybod mai dyma a ddigwyllir wrth ymarfer;
- Datblygu pecyn hyfforddi cenedlaethol ar gyfer D2RA yng Nghymru a sicrhau bod hyn yn cynnwys ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol a straeon cleifion;
- Sicrhau bod yr arweinyddiaeth yn ei le i gefnogi staff i gymryd risgiau cadarnhaol yn unol â dymuniadau'r unigolyn;
- Gwella'r defnydd o eiriolaeth yn y gymuned wrth ddatrys tensiynau rhwng y tîm amlddisgyblaethol ac archwaeth risg unigolion;
- Dathlu achosion llwyddiannus o ryddhau o'r ysbyty a rhannu dysgu cadarnhaol.

• Cysoni –

Nodwyd bod pob rhanbarth a sefydliad ledled Cymru yn dechrau o wahanol bwyntiau o ran capasiti, adnoddau, anghenion preswylwyr a daearyddiaeth, gan wneud dull 'un ateb sy'n addas i bawb' yn aneffeithiol. Mae angen gwneud rhagor o waith i gysoni'r anghysondebau hyn lle y bo modd, ond dylai rhaglenni yn y dyfodol ddarparu ar gyfer rhai gwahaniaethau anochel.

• Cytundeb a dealltwriaeth unfurf –

Mae cydweithredu'n parhau i gael ei lesteirio gan derminoleg, diwylliannau a lefelau amrywiol o amharodrwydd i gymryd risg ar draws rhanbarthau, sefydliadau a chymunedau. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod angen sicrhau cytundeb cyffredinol cyn y gellir gweithredu model cenedlaethol, gyda set o egwyddorion arweiniol wedi'u sefydlu i gefnogi dealltwriaeth.

• Amrywiant lleol –

Canmolodd y cyfranogwyr ddatblygiad fframwaith cenedlaethol presennol D2RA, ond roeddent yn annog mwy o ymreolaeth i gyflwyno amrywiant lleol lle y bo'n briodol. Roedd un awgrym yn cynnig y dylid rhoi mwy o fewnbwn i Awdurdodau Lleol, gan ychwanegu bod y dull presennol yn rhoi lle canolog i Fyrddau lechyd yn bennaf.

• Casglu data –

Trafodwyd yr angen am ymrwymiad llawn i gasglu ac adrodd data, gan nodi y byddai safoni gwell yn lleddfu'r pwysau presennol sydd ar dimau gwybodeg. Argymhellwyd y dylid cytuno ar ganlyniadau 'cnebyn euraid' cenedlaethol sydd wedi'u diffinio'n dda a'u gwneud yn amod ar gyfer cyllid parhaus. Dylai'r canlyniadau hyn gael eu halinio ar draws rhaglenni ariannu a'u cyflwyno i un adran yn Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau'r beichiau adrodd.

• Rhagnodi cytbwys –

Roedd rhai safbwyntiau a fynegwyd yn y trafodaethau'n galw am lefelau uwch o rhagnodi gan Lywodraeth Cymru, gan gyfeirio at yr angen am fwy o strwythur ac arweiniad. Fodd bynnag, teimlai eraill y gall gofynion rhy benodol droi'n wrthgynhyrchol, gan gyfyngu ar greadigrwydd ac arloesedd. Argymhellodd cyfranogwyr y dylai rhaglenni yn y dyfodol weithio i ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng strwythur ac ymreolaeth. Yn aml gellir drysu rhwng y perygl o ddull hyblyg a rhywbeth sy'n ddewisol a gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol optio allan – mae angen cydbwysedd er mwyn osgoi hyn.

• Deddfwriaeth –

Trafododd y cyfranogwyr yr angen i gydgyssylltu deddfwriaeth uwchlaw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan nodi bod

canlyniadau'n cael eu methu neu eu hystyried yn ddibwys yn aml. Gall canlyniadau wrthdaro hefyd, gan arwain at wahanol ddulliau gan y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nad yw'n ffafriol i gydweithio.

- **Y darlun ehangach –**

Er bod cefnogaeth lawn i D2RA, dywedodd nifer o gyfranogwyr mai dim ond un elfen ydyw o raglen waith fwy sy'n cael ei chyflawni gan eu rhanbarth. Dylid ystyried sut mae D2RA yn cyd-fynd â gwaith ehangach a'i berthynas â modelau gofal cartref eraill, yn ogystal â gofal brys a chanolraddol.

- **Eglurder cyllid –**

Pwysleisiodd nifer o drafodaethau'r angen am lai o ffrydiau ariannu a gofynion adrodd, gan nodi bod y trefniadau presennol wedi arwain at ddryswch a dyblygu gwaith. Dylai rhaglenni yn y dyfodol geisio alinio ffrydiau ariannu a rhoi mwy o eglurder ynghylch y defnydd a fwriedir ar gyfer y cyllid a'r canlyniad a ddymunir.

- **Mynediad at adnoddau –**

Argymhellwyd y dylid gwneud mwy o waith i sicrhau bod adnoddau yn y lle iawn i ddarparu gwasanaethau. Rhaid gwella tegwch o ran mynediad er mwyn sicrhau bod y cyrff cywir yn gallu defnyddio'r adnoddau sydd eu hangen er budd dinasyddion.

- **Perthnasoedd a chyd-gynhyrchu –**

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd cyd-gynhyrchu mewn unrhyw raglen newydd, gan gyfeirio at waith diweddar yn ymwneud â sicrhau'r maint cywir (rightsizing) fel enghraifft o fenter a

wnaed gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, nid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd galw hefyd am fwy o eglurder ynglŷn â'r berthynas a'r sbardunau rhwng Byrddau Iechyd rhanbarthau, ôl troed awdurdodau Lleol a Chlystyrau, tra'n mynd i'r afael ag unrhyw agweddau 'ni a nhw' sy'n bodoli.

- **Platfformau dysgu yn y dyfodol –**

Cytunwyd yn gyffredinol fod y Cymunedau Ymarfer wedi gweithio'n dda i hwyluso'r gwaith o rannu arferion gorau a hyrwyddo dysgu cydweithredol. Croesawodd y cyfranogwyr y posibilrwydd o weithredu mecanweithiau tebyg mewn unrhyw raglenni ariannu yn y dyfodol.

- **Terminoleg –**

Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r derminoleg gyfredol a ddefnyddir, yn enwedig 'O'r Ysbyty i'r Cartref'. Roedd rhywfaint o bryder bod gormod o ffocws yn cael ei roi ar wasanaethau gofal llai dwys a dim digon ar adeiladu modelau gofal cymunedol. Awgrymwyd y byddai gwell terminoleg yn gwella cyfathrebu, yn dileu amwysedd ac yn rhoi eglurder ar ganlyniad arfaethedig gwasanaethau.

C3. Sut rydym yn sicrhau bod cyllid grant yn cael ei brif ffrydio gyda chyllid craidd ar draws y sefydliadau partner

Cafodd y pynciau a drafodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn uchod eu categorïddio o dan y pedair thema ganlynol:

- **Cynaliadwyedd –**

Roedd llawer o'r drafodaeth yn ymwneud â phrif ffrydio cyllid yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd prosiectau a ariennir gan grantiau. Nodwyd bod y gostyngiad parhaus mewn cyllidebau craidd oherwydd cyfnod o gyni wedi ei gwneud bron yn amhosibl disodli cyllid prosiect unwaith y daw grant i ben. Nid oedd y cyfranogwyr yn cytuno y gellid osgoi hyn drwy ddefnyddio cyllid graddedig, yn hytrach roeddent yn argymhell y dylid cynllunio ar gyfer strategaethau ymadael ar y dechrau (h.y. o fewn y cynnig) ac yn awgrymu y dylai ariannu prosiectau hirdymor ddod yn gyllid craidd os a phan allant ddangos effaith a llwyddiant parhaus.

- **Hyd y cyllid –**

Trafododd cyfranogwyr problemau a achoswyd gan yr amserlenni ariannu byr hefyd, gan ddod i'r consensws cyffredinol bod cyfnod o dair blynedd yn rhy fyr i ganiatáu cynllunio, recriwtio a chyflawni digonol. Er bod rhai'n cytuno bod cyllid dros dro o fudd wrth benderfynu pa newidiadau sydd wedi gweithio, cytunwyd bod angen cyfnod o bum mlynedd o leiaf er mwyn gweithredu prosiect neu wasanaeth llwyddiannus yn gywir a dangos tystiolaeth ohono.

- **Strwythur –**

Aeth trafodaeth bellach i'r afael â strwythurau ariannu presennol ac yn ystyried sut beth fyddai cyllid yn y dyfodol. Argymhellodd cyfranogwyr y dylid adolygu'r defnydd o gyllid craidd ochr yn ochr â chyllid grant, gan nodi na ddylid ystyried y ddau ar wahân i'w gilydd. Roedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys: gwahanu cronfeydd prif ffrwd a thrawsnewid; dyrannu cyllid i ganlyniadau yn hytrach na phrosiectau; a chyflwyno cronfa 'pwysau'r haf' i ystyried effeithiau canlyniadol COVID-19.

- **Cyfuno –**

Nododd cyfranogwyr y dibynnir ar gyllid grant ar hyn o bryd fel yr unig ffynhonnell ariannu 'wirioneddol integredig'. Awgrymwyd bod angen diogelu'r cyfuno hwn, gyda llawer yn mynegi pryderon ynghylch aneffeithlonrwydd cyllidebau a gaiff eu cyfuno'n wirfoddol.

C4. Bydd ffocws cryf ar werthuso ac adolygu perfformiad yn y rhaglen newydd – pa gymorth a seilwaith sydd eu hangen i'ch helpu i wneud hyn?

Nododd cyfranogwyr fod angen gwella neu gefnogi'r meysydd canlynol:

- **Capasiti dadansoddol –**

Ym mhob un o'r trafodaethau, soniodd cyfranogwyr yn aml am yr angen i wella capasiti a gallu dadansoddol eu gweithluoedd. Nodwyd nad yw'r systemau a'r gweithluoedd presennol wedi'u sefydlu i gasglu neu ddadansoddi data, a bod angen mwy o fuddsoddiad i recriwtio'r staff angenrheidiol, tra'n ailsgilio ac addasu adnoddau presennol at ddibenion gwahanol. At hynny, dywedodd cyfranogwyr fod cadw staff medrus yn anodd unwaith eto oherwydd cyllid dros dro a bod pob rhanbarth yn cystadlu am yr un staff o fewn cronfa dalent gyfyngedig.

- **Adolygu strwythurau –**

Yn ogystal ag uwchsgilio staff, dywedodd cyfranogwyr fod angen gwella'r systemau presennol ar gyfer casglu ac adrodd data'n sylweddol yn eu sefydliadau. Mynegwyd pryderon ynghylch datgysylltu rhwng strwythurau mewnol tameidiog, gyda phrosesau anghyson ar gyfer casglu, storio ac adrodd data yn arwain at anawsterau sylweddol o ran cyfathrebu a dadansoddi data.

- **Adnoddau –**

Mae angen dyrannu digon o adnoddau ar gyfer y capasiti yn y rhanbarthau i gefnogi gwerthuso a monitro perfformiad. Mae'r adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i Werthusiad y Gronfa Trawsnewid wedi bod o gymorth i weithio ochr yn ochr â'r rhanbarthau.

- **Mesurau diffiniedig –**

Argymhellodd cyfranogwyr y dylai rhaglenni yn y dyfodol geisio diffinio mesurau canlyniadau cenedlaethol ar y dechrau, y gellir eu hategu gan fesurau wedi'u teilwra ar lefel prosiect lle bo angen. Cytunwyd i raddau helaeth y dylai pob rhanbarth fod yn gweithio tuag at set gyffredin o ganlyniadau wedi'u pennu ymlaen llaw, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y manteision ehangach i unigolion a chymunedau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y bydd y defnydd o gyllid yn amrywio rhwng prosiectau, gan olygu bod angen defnyddio rhai mesurau ar lefel prosiect.

- **Atebolrwydd –**

Roedd trafodaethau pellach yn ymdrin ag atebolrwydd, gan grybwyll yr angen i glymu cyllid wrth ganlyniadau. Awgrymwyd y dylai rhaglenni yn y dyfodol fod ynghlwm wrth set graidd o ofynion, gyda chanlyniadau ar gyfer diffyg cydymffurfio; megis atal cyllid.

- **Prosesau adrodd symlach –**

Gan adleisio pwyntiau a grybwyllwyd yn flaenorol, argymhellodd cyfranogwyr y dylid symleiddio prosesau adrodd yn y dyfodol, gyda phwyslais arbennig ar alinio gofynion gwahanol ffrydiau ariannu. Awgrymwyd hefyd na ddylid gorfod cyflwyno adroddiadau mor aml; dylai'r gofynion barhau'n gyson drwy gydol cyfnod y grant; ac y dylid rhoi mwy o ffocws a chefnogaeth i adroddiadau cynaliadwyedd, gan alluogi rhanbarthau i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol.

Effaith COVID-19 ar Wasanaethau O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru

Daeth heriau sylweddol i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn sgil COVID-19, gan effeithio ar wasanaethau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref mewn sawl ffordd. Un o'r effeithiau oedd cyflymu'r broses o gyflawni D2RA. Adlewyrchwyd hyn yn yr astudiaethau achos yn ogystal ag yn y gofynion rhyddhau cleifion o'r ysbyty COVID-19 yng Nghymru ac fe'i cefnogwyd gan yr arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.¹⁷

Mae'r Gymuned Ymarfer wedi darparu plattform ar gyfer adborth ar effaith COVID-19 a bydd rhai o'r arsylwadau a'r newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i ddiweddarau'r model yn cael eu bwydo'n ôl i ddatblygiad pellach D2RA yng Nghymru. Mae'r adborth a gasglwyd yn ystod y Rhaglen yn cynnwys:

Canlyniadau cadarnhaol yr ymateb i COVID-19:



- **Gostyngiadau mewn biwrocratiaeth:**

Mae mwy o asesiadau'n cael eu hwyluso gartref erbyn hyn, tra bod prosesau cymhleth wedi'u symleiddio ac mae cyflymder cynllunio rhyddhau cleifion wedi'i gyflymu.

- **Newid cadarnhaol mewn diwylliant:**

Cynnwys llai o gymhlethdod a gwell cyfathrebu wrth weithio mewn partneriaeth. Helpodd yr angen i ymateb i bwysau COVID-19 i ddatblygu dulliau mwy seiliedig ar dimau a hwyluso cynnydd tuag at system fwy hyblyg a deinamig.

- **Integreiddio'r trydydd sector:**

Mae cynnydd yng nghyfraniad gwirfoddolwyr a'r trydydd sector at lwybrau O'r Ysbyty i'r Cartref wedi helpu i gryfhau'r berthynas rhwng yr ysbytai a staff cymunedol a chodi ymwybyddiaeth staff o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned.

- **Gwell gwasanaethau digidol:**

Mae gweithio rhithwir wedi bod yn gatalydd i ddatblygu gwasanaethau digidol, gan arwain at fwy o ymgysylltu gan feddygon teulu a chynnydd mewn asesiadau o bell.

- **Perthnasoedd gwaith hyblyg:**

Mae ymateb i COVID wedi golygu bod angen mwy o hyblygrwydd rhwng comisiynwyr a darparwyr, gan greu'r cyfle ar gyfer trefniadau gweithio newydd.

- **Capasiti a chynllunio:**

Mae'r angen i gynyddu argaeledd gwelyau wedi gwella capasiti ar draws y system, gan leddfu'r pwysau ar gynllunio a helpu i leihau oedi wrth ryddhau cleifion o aeaf 2020 ymlaen.

- **Cynnwys mwy ar y teulu:**

Mae amharoddrwydd i fabwysiadu pecynnau gofal oherwydd y risg o drosglwyddo, ynghyd â mwy o bobl yn gweithio gartref, wedi gweld mwy o gyfranogiad a chymorth gan deuluoedd.

- **Proffil a chydabyddiaeth:**

Mae staff iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector wedi cael mwy o amlygrwydd oherwydd eu rôl ar flaen y gad yn yr ymateb COVID-19.

17. Gofynion gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty: COVID-19

https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-COVID-19?_ga=2.49498534.1221051850.1622115982-1556815012.1613663626

Canlyniadau negyddol yr ymateb i COVID-19:



- **Blinder y gweithlu:**

Mae pwysau digynsail wedi cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol staff. Ni ellir cynnal y momentwm ar gyfer newid wrth i staff fynd yn fwy blinedig.

- **Cynaliadwyedd gwasanaethau:**

Mae'r cyflymder y gwnaed rhai newidiadau (h.y. mwy o ddarpariaeth gwasanaeth) wedi arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd yn y dyfodol a diffyg cynllunio ar gyfer y 'normal newydd'.

- **Gwro oddi wrth brosesau:**

Mae ymgynghori â staff wedi bod yn llai caeth yn ystod y pandemig, gan arwain at wro oddi wrth safonau ac arferion disgwylidig. Er enghraifft, cynnwys llai o bobl yn y broses o wneud penderfyniadau.

- **Heriau logistaidd:**

Mae'r 'rheol 28 diwrnod' a weithredwyd mewn cartrefi gofal i atal lledaeniad COVID-19 wedi creu problemau parhaus o ran symud preswylwyr ym mhob rhan o'r system.

- **Cymhwysedd a chyllid:**

Mae problemau'n parhau o ran pwy sy'n talu am ofal mewn rhai ardaloedd ac mae anghytundebau'n parhau ynghylch cymhwysedd i gael Gofal Iechyd Parhaus.

- **Ansicrwydd ynghylch ariannu:**

Mae prosiectau O'r Ysbyty i'r Cartref drwy gydol pandemig COVID-19 wedi'u hariannu drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid yn bennaf. Mae hyn wedi achosi ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd ac argaeledd cyllid yn y dyfodol.

- **Ymwybyddiaeth anghyfartal:**

Er bod rhai gwasanaethau cymunedol wedi'u cynyddu yn ystod yr ymateb i COVID-19, mae eraill wedi cael eu lleihau neu eu gohirio. Mae angen gwneud gwaith i gefnogi gwasanaethau sy'n ei chael hi'n anodd a sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei gwella ar draws pob maes.

Mae'r adran hon yn dangos rhai o gryfderau, heriau allweddol a meysydd i'w gwella sy'n deillio o ganfyddiadau'r Gymuned Ymarfer. Cafwyd nifer o themâu a oedd yn amlwg drwyddi draw ac sydd wedi'u bwydo i ddatblygiad pellach D2RA gan yr Uned Gyflawni.

Cryfderau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref:

- **Canolbwyntio ar y claf –**

Mae nod cyffredin o ganolbwyntio ar 'Gartref yn Gyntaf', gyda chanlyniadau i gleifion a theuluoedd ac adeiladu adferiad fel elfen graidd i bob llwybr.

- **Datblygiad D2RA –**

Mae'n bwysig bod gan randdeiliaid y capasiti a'r gallu i fod yn rhan o sgysiau am ddatblygu'r model D2RA gan fod hyn wedi helpu i feithrin perchnogaeth.

- **Hyblygrwydd –**

Mae model D2RA yn caniatáu hyblygrwydd gyda rolau a chyfrifoldebau a rennir, gan annog y cyfle i ystyried gweithio'n wahanol.

- **Gweithio mewn partneriaeth –**

Mae O'r Ysbyty i'r Cartref wedi annog gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i weithio mewn partneriaeth well. Mae cydweithio wedi tyfu'n arbennig o gyflym oherwydd pwysau adnoddau yn sgil COVID-19.

- **Optimistiaeth –**

Mae yna frwdfrydedd ac agwedd gadarnhaol ynghylch cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.

Heriau allweddol:

- **Deuliaeth risg –**

Mae gwahanol ddiwylliannau risg rhwng ysbytai a gwasanaethau cymunedol.

- **Ymrwymiad ymarferwyr –**

Bydd cael cyfranogiad llawn gan bobl nad ydynt wedi mynychu'r Gymuned Ymarfer yn her. Gwaethygydd hyn gan y galw cynyddol sydd ar staff iechyd a gofal cymdeithasol gan y pandemig, o ran llwyth gwaith a salwch staff.

- **Ailadeiladu, nid dychwelyd –**

Bydd cynnal y newid cadarnhaol o fewn D2RA ac atal llithro'n ôl i hen arferion wrth i GIG Cymru ailadeiladu ar ôl COVID-19 yn gofyn am strwythur, cydweithio a datblygu mesurau gwerthuso.

Meysydd i'w gwella:

- **Dysgu a rennir –**

Mae angen mwy o ddysgu o fewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac yn genedlaethol. Yn benodol mae angen rhannu enghreifftiau o arferion gorau a sicrhau bod model D2RA yn addasu ac yn datblygu'n gyson i gyd-fynd â'r newid yn y tirlun iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn bwysicach fyth yng nghyd-destun COVID-19.

- **Canolbwyntio ar y claf –**

Mae angen i bartneriaid sicrhau nad yw llais y claf yn cael ei golli o fewn prosesau ac mai'r prif ffocws yw dewis y claf. Mae hyn yn golygu gwerthuso mesurau a chanlyniadau'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn addas i gleifion.

- **Symleiddio gweithdrefnau –**

Mae angen i waith barhau i ddileu hyd prosesau a biwrocratiaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio mwy ar gleifion. Mae hyn wedi digwydd i raddau cyfyngedig oherwydd COVID-19, ond mae angen iddo barhau'n nod hirdymor.

- **Datblygu meddylfryd 'Gartref yn Gyntaf' –**

Angen datblygu meddylfryd Gartref yn Gyntaf ym mhob aelod o staff, gan gymell pobl i gymryd mwy o ran yn gynnar er mwyn creu perchnogaeth ar bob lefel.

I gloi'r sesiwn Cymuned Ymarfer, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddarparu gair a oedd yn disgrifio'r Gymuned Ymarfer (gweler isod).

Cytunwyd bod y Gymuned Ymarfer wedi bod yn ddefnyddiol i bobl ac y dylid hyrwyddo cyfleoedd pellach ar gyfer dysgu anffurfiol a rhannu rhwystrau ac arferion gorau.

Geiriau a
ddefnyddiwyd
amlaf



Gwybodus



Cydweithredol



Calonogol


Cefnogol

Procio'r meddwl

Rhannu



Cadarnhaol



Buddiol

O gymorth

Cyfeillgar

Gyda'n gilydd

Cefnogol

Amser i feddwl

Treiddgar

Diddorol

Ysbrydoli

Gwranddo

Profiad cyffredin

Defnyddiol

Rhwydweithio

Arloesol

Llais

Geiriau a
ddefnyddiwyd
leiaf aml

Roedd trafodaeth gyda chyfranogwyr ynghylch y camau nesaf yn cydnabod bod nifer o ddarnau ategol o waith yn cael eu datblygu sy'n cynnwys y Gymuned Ymarfer ar gyfer sicrhau bod maint gwasanaethau cymunedol yn gywir (rightsizing); Grŵp Modelu a Monitro Capasiti Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Grŵp Gorchwyl a Gorffen D2RA.

Roedd pob un o'r Grwpiau hyn wedi galluogi ffocws cyfunol cryfach ar Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref ac mae'n galluogi gweithredu model D2RA cenedlaethol yn gyflymach.

Bydd Rhaglen Weithredu Gartref yn Gyntaf/D2RA newydd, wedi'i hadfywio yn cael ei chydlyn gan yr Uned Gyflawni, mewn cydweithrediad parhaus â Llywodraeth Cymru a'r holl randdeiliaid a amlygir yn y Papur Briffio hwn.

Mae ymrwymiad cadarn i barhau â'r gwaith gyda'r Gymuned Ymarfer hon a gweithredu ynghylch y dysgu allweddol a amlygwyd. Y syniadau cychwynnol yw y bydd gan y rhaglen dri maes ffocws allweddol:

1. Y Gwasanaethau Cymunedol Cywir –

ymgorffori'r gwahanol ddarnau o waith sy'n ymwneud â sicrhau bod maint gwasanaethau cymunedol yn gywir;

2. Y Meddylfryd Cywir –

ymgorffori'r newid diwylliant a'r hyfforddiant sydd eu hangen i ymwreiddio ethos Gartref yn Gyntaf/D2RA ymhellach;

3. Gwelliant Parhaus –

ymgorffori monitro, gwerthuso a dysgu a rennir.

Wrth symud ymlaen, ac yng nghyd-destun rhaglenni ariannu newydd sy'n cael eu datblygu fel olynnydd i'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, roedd yn bwysig bod yr elfennau gwahanol yn cael eu dwyn ynghyd o fewn strwythur llywodraethu cyfunol i gyflawni agenda fwy pwerus ar gyfer newid ac i leihau cymhlethdod y prosesau ariannu ac adrodd presennol.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf i lunio'r cynigion hyn a fydd yn cael eu rhannu â chyfranogwyr y Gymuned Ymarfer i gael eu safbwyntiau a'u mewnbwn parhaus.

Atodiad 1: Canllaw Acronymau

AADS	Admission Avoidance and Discharge Service
CQC	Y Comisiwn Ansawdd Gofal
D2RA	Rhyddhau i Adfer ac Asesu
DU	Uned Gyflawni GIG Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Atodiad 2: Tabl o'r Ffigurau

Ffigur 1	Trefnu newid trawsnewidiol a modelau gofal newydd	3
Ffigur 2	Modelau rhyddhau cyflym yng Nghymru a Lloegr	4
Ffigur 3	'Y Model' gan yr Athro John Bolton	5
Ffigur 4	Llwybrau D2RA	7
Ffigur 5	Llinell amser Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref yng Nghymru	9
Ffigur 6	Amcanion Cymuned Ymarfer	10
Ffigur 7	Modelau Gartref yn Gyntaf ac O'r Ysbyty i'r Cartref ledled Cymru	11
Ffigur 8	Mapio astudiaethau achos D2RA i lwybrau	12
Ffigur 9	Manteision dull rheoli risg cadarnhaol	23
Ffigur 10	Mesur perfformiad ar gyfer prosiectau a gwasanaethau	25
Ffigur 11	Mesurau D2RA cenedlaethol	26
Ffigur 12	Mesurau perfformiad D2RA posibl fesul llwybr	27

Atodiad 3: Rhestr Gyflym o Adnoddau

Dogfennau Strategol

Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf

Fframwaith GIG Cymru 2020/23

<https://llyw.cymru/fframwaith-cynllunio-gig-cymru-2020-i-2023-whc2019029>

Cronfeydd Integreiddio/Gofal Di-dor

Cronfa Trawsnewid y Gronfa Gofal

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/y-gronfa-gofal-integredig-canllawiau-refeniw-cyfalaaf-a-dementia.pdf

Integredig (FfDG)

gov.wales/health-and-social-services-transformation-fund-projects

Modelau Rhyddhau

Rhyddhau i Asesu (D2A)

www.nhs.uk/NHSEngland/keogh-review/Documents/quick-guides/Quick-Guide-discharge-to-access.pdf

Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)

www.adss.cymru/image/blog/COVID-19%20Resources/28-05-20/Right-sizing%20Community%20Services%20for%20Discharge.pdf

Gofynion Rhyddhau o'r Ysbyty i'r Cartref Covid-19

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-o-ysbyty-covid-19.pdf>

Pecyn cymorth Rheoli Gwelyau

www.adss.cymru/cy/blog/post/bed-management

Astudiaethau Achos o Gymru

Cwm Taf Morgannwg: Cadw'n Iach Gartref
cwmtafmorgannwg.wales/hundreds-patients-avoid-hospital-stays-thanks-home-service/

Caerdydd: Get Me Home

www.youtube.com/watch?v=eJM_eVU1FIY

Gorllewin Cymru: PIVOT

www.youtube.com/watch?v=qpWdABCKuyY&feature=emb_logo

Gorllewin Morgannwg: Modelau Gofal Optimaidd (t.61)

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/y-gronfa-gofal-integredig-adroddiad-blynyddol-2018-2019_0.pdf

Gogledd Cymru: Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/rhaglen-drawsnewid/gwasanaethau-cymunedol/

Gwent: Gartref yn Gyntaf

www.youtube.com/watch?v=1sC_Ir5NxnI

Powys: Rhyddhau i Adfer ac Asesu

pthb.nhs.wales/news/health-board-news/an-occupational-therapy-led-discharge-to-recover-and-assess-model-in-powys-is-supporting-people-to-return-home-promptly-and-safely-from-hospital/

Astudiaethau Achos o bob rhan o'r DU

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:
Track and Triage

[local.gov.uk/north-staffordshire-track-and-triage](https://www.local.gov.uk/north-staffordshire-track-and-triage)

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:
Medway Home First

www.local.gov.uk/medway-home-first

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:
Surrey Discharge to Assess

www.local.gov.uk/surrey-discharge-assess

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:
Tower Hamlets Admission Avoidance and Discharge
Service (AADS) and Discharge To Assess

www.local.gov.uk/tower-hamlets-admission-avoidance-and-discharge-service-aads-and-discharge-assess

Astudiaeth Achos Cymdeithas Llywodraeth Leol:
Discharge to assess in Warwickshire

www.local.gov.uk/COVID-19-good-practice-case-study-discharge-assess-warwickshire

Cyhoeddiadau'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus

Commissioning Out of Hospital Care to
reduce delays

[ipc.brookes.ac.uk/files/publications/Commissioning_Out_of_Hospital_Care_Services_to_reduce_delay_\(Final%20March%202020\).pdf](https://ipc.brookes.ac.uk/files/publications/Commissioning_Out_of_Hospital_Care_Services_to_reduce_delay_(Final%20March%202020).pdf)

New Developments in Social Care

ipc.brookes.ac.uk/files/publications/New_Developments_in_Adult_Social_Care.pdf

Reducing Delays in hospital transfers in the care
of older people: key messages in planning
and commissioning

ipc.brookes.ac.uk/files/publications/Some_key_messages_around_hospital_transfers_of_care.pdf

Extra care housing in Wales: A state of the
nation report

ipc.brookes.ac.uk/files/publications/HousingLIN_Wales_ECH_report_Dec15.pdf